



MANIFFESTO

Cynnwys.

RHAGAIR.

RHAGYMDRODD

YR IAITH FEL CYFRWNG CYMDEITHASOL A DIWYLLIANOL

DEFNYDD LLAWN O'R IAITH YM MHOB MAES

1. Statws swyddogol yr Iaith.
2. Addysg.
3. Cyfryngau torfol

SEILIAU MATEROL CYMUNEDAU CYMREIG

1. Tai
2. Cynllunio
3. Yr economi

DULLIAU O WEITHREDU

CASGLIADAU

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1982

*Carwn gydnabod ein diolch i Menna Elfyn,
Gwenda Williams. Wyn ap Gwilym, Meg Dafydd. Tudur
Jones, Mei ac Argraffdy Arfon am eu cymorth i baratoi'r
Manifesto hwn.*

Ail-argraffwyd gan Wasg Carreg Gwalch Gorffennaf 1989.

Rhagair

Ugain mlynedd yn 81, ar Fawrth 13, 1962 traddodwyd darlith radio, "Tynged yr Iaith" gan Saunders Lewis, a chyda'r ddarlith hon taniwyd y gwreichion a oedd i arwain at sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac i fyngiant torfol o genedlaetholdeb yng Nghymru yn y chwedegau.

Ym 1982 gyda chyhoeddiad Maniffesto newydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 'rydym yn naturiol yn ymwybodol o lwyddiannau a cholledion yr ugain mlynedd diwethaf. Dros gyfnod o ugain mlynedd mae'n anochel fod unrhyw fudiad yn datblygu a newid - a dyna yn sicr yw profiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: mae nodweddion o ddatblygiad organig yn perthyn i bob grŵp a chymdeithas o bobl. Fe welwn yn natblygiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg effaith a dylanwad sefyllfaoedd amrywiol a chyfnewidiol, a'r angen i addasu a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o hyn oll.

Yn ystod y ddau ddegawd ehangwyd meysydd gweithredu y Gymdeithas; sylweddolwyd yr angen i sicrhau seiliau cymdeithasol a chymunedol cryf i'r iaith, a chydnabyddwyd pwysigrwydd polisïau effeithiol ac eang ym meysydd cynllunio, gwaith ac addysg er cadarnhau'r seiliau hynny. Os na allwn sicrhau amodau byw ac iach er hybu bodolaeth yr Iaith Gymraeg yn y cymunedau hynny lle y gall ffynnu. yna di-bwrpas yw sôn am ei dyfodol.

Wrth gyflwyno'r Maniffesto newydd ni allaf beidio a nodi un datblygiad arwyddocaol, oherwydd gwelwn ar derfyn 1982 ffrwyth blynyddoedd o ymgyrchu ar ran y Gymdeithas gyda lansio y Bedwaredd Sianel yng Nghymru. Ym myd technolegol yr wyth-degau rhaid cydnabod dylanwad dyddiol y cyfryngau torfol ar ein bywydau, a gobeithiaf y bydd cynnyrch S4C yn gwireddu'r potensial sydd yn y cyfrwng i hybu hunan-hyder y Cymro.

"Trwy ddulliau Chwyldro yn unig y mae llwyddo", oedd geiriau Saunders Lewis yn ei ddarlith radio yn 1962. Nid yw chwyldro yn digwydd dros nos, ac yn ei hanfod mae natur y broses o chwyldro yn debyg i lanw a thrai; a phrif swyddogaeth mudiad chwyldroadol yw ceisio sicrhau pwysau di-dor ar seiliau'r gyfundrefn y bwriedir ei dymchwel. Er mwyn creu'r amodau sydd yn mynd i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg rhaid cynnal y berw a'r brwdfrydedd torfol, heintus (gan gofio mai peth byrhoedlog o'i hanfod yw berw) law yn llaw a'r dycnwch di-ddiolch a'r adeiladu cyson o rwydweithiau gwybodaeth a dealltwriaeth sydd yn hybu ymwybyddiaeth y Cymro o'r sefyllfa. Gwir yr hen air yn y cyswllt yma, "Dyfal donc a dyr y garreg".

Er hybu y broses chwyldroadol o finiogi ymwybyddiaeth penderfynwyd ysgrifennu Maniffesto Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ei newydd wedd; pwrpas y Maniffesto yw gosod allan ein polisïau a'n hamcanion fel mudiad er mwyn sicrhau trafodaeth adeiladol a gweithredu pwrpasol. Gobeithiwn trwy gyhoeddi'r ddogfen hon y byddwn yn cynnig fforwm lle y gellir cyfnewid syniadau a beirniadaeth ar lefel genedlaethol a lleol; nid yw'r Maniffesto i'w gymryd ar ffurf dogma, gan fod y perygl o suddo i'r byd hunan-fodlon a diffwrwyth ac anwybyddu beirniadaeth yn

sicr o lesteirio ein heffeithiolrwydd fel mudiad. Os oes dyfodol i ni fel Cymry rhaid gochel rhag llechu yng nghysgodion ein hathroniaethau personol; rhaid symud allan i'r agored i drafod ac i ddatblygu dealltwriaeth eang a chynhyrchiol.

Mae gan Gymdeithas yr Iaith swyddogaeth bendant a pharhaol i greu ymwybyddiaeth eangfrydig o'r argyfwng presennol yng Nghymru.

Gwnawn hyn drwy wynebu'r her o ddylanwadau newydd ac estron, cyfrannu i drafodaeth ar bob lefel a gweithredu'n gadarn a deallus ar sail ein polisïau. Ni ddylem dwyllo ein hunain ein bod wedi cyflawni yr hyn a fedrwn a cheisio cysur yn ein gorffennol.

Ein tasg heddiw yw camu ymlaen gyda hyder fel mudiad chwyldroadol a wynebu her yr ugain mlynedd nesaf o frwydro er mwyn sicrhau amodau byw i'r Gymraeg.

Rhagymadrodd

Cymwys yw cyhoeddi maniffesto newydd Cymdeithas yr Iaith, a hithau'n dathlu ugain mlynedd eleni ers ei sefydlu. Aeth deng mlynedd heibio er pan gafwyd ei maniffesto cyntaf a chredwn ein bod mewn gwell sefyllfa yn awr i gyflwyno i bobl Cymru y math o gynlluniau a pholisiau y mae eu hangen ar Gymru heddiw ynghyd â'r rhaglen waith a fydd yn sicrhau ffyniant a bywyd cyflawn i'r Gymraeg.

Pan sefydlwyd y mudiad yn11962, nid oedd yr iaith yn cael ei hystyried yn iaith swyddogol mewn unrhyw ffordd. Chwe blynedd ar 6l ei sefydlu pasiwyd Deddf yr Iaith a oedd yn caniatáu statws i'r Gymraeg lle'i defnyddir yn gyfochrog a'r Saesneg. (Ysyaeth, nid oes unrhyw reidrwydd stadudol ar yr un gorfforaeth i ddefnyddio'r Gymraeg, a chredwn bod yr amser yn aeddfed yn awr i ymgyrchu a chynllunio Deddf Newydd i'r Iaith). Er hyn, llwyddodd Cymdeithas

yr Iaith yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf i hoelio'r iaith Gymraeg ar ganol llwyfan gwleidyddol Cymru. Gorfodwyd barn. Eiriaswyd pobl. O ganlyniad crëwyd yr ymwybyddiaeth o argyfwng yr iaith a'i dyfodol ansicr, a hynny o du'r unigolyn hyd at gyrff cyhoeddus a llywodraeth ganolog a lleol. Daeth yr iaith yn destun ystyriaeth wrth lunio polisiau'n ymwneud â Chymru.

Oni chreodd y gymdeithas Gymraeg yr angen am faniffesto newydd? Enillwyd llawer o'r brwydrau y sorliwyd amdanynt ym maniffesto 1972 bead yn llwyr neu'n rhannol e.e. yr ymgyrch i Gymreigio'r Swyddfa Bost; y Bwrdd Telathrebu; Arwyddion Ffyrdd, ffurflenni a dogfennau;ond yn anad dim yr ymgyrch dros Sianel Gymraeg. Nid nad oes brwydrau ar of i'r Gymdeithas,eithr brwydrau gwahanol ydynt o ran naws i ymgyrchoedd y chwedegau a'r saithdegau. Bellach mae angen polisiau ac ymgyrchoedd yn ymwneud ag addysg, tai, cynllunio ieithyddol a chymdeithasol, twristiaeth a'r economi, yn ogystal pharhau'r ymgyrchoedd statws, mewn meysydd newydd ynghyd ag arolygu'r hyn a enillwyd eisioes.

Datblygodd Cymdeithas yr Iaith felly, dros y blynyddoedd. Mudiad a frwydrai dros hawliau'r Gymraeg ydoedd ar y dechrau, wrth fynnu statws i'r iaith, drwy ffurflenni, yn y Swyddfa Bost ac ar arwyddion Cymraeg, gan ddefnyddio dulliau anghyfundrefnol a thorcyfreithiol fel modd i greu'r ymwybyddiaeth o'r angen am newid. Casglodd farn a dylanwad cyrff democrataidd hefyd gan roi gewynau i'w gofynion.

Ond yn raddol yn ystod y saithdegau, sylweddolodd Cymdeithas yr Iaith fod.parahad a ffyniant yr iaith yn dibynnu ar bethau amgenach na ffurflenni ac arwyddion gan fod trefn economaidd a chymdeithasol cyfalafiaeth y Gorllewin yn yr ugeinfed ganrif yn milwrio yn erbyn parahd yr iaith. Dyna pam yr aeth y mudiad ati i ymhel a meysydd yn ymwneud â Thai, Addysg, Twristiaeth, Undebaeth, y Cyfryngau Torfol a Chymdeithasiaeth gan ffurfio polisiau a chyfranogi o ddulliau gwleidyddol. Esblygodd felly'n fudiad gwleidyddol yng ngwir ystyr y gair, drwy dactegau gwleidyddol, a cheisio hyrwyddo polisiau gwleidyddol.

Llwyddodd Cymdeithas yr Iaith i ddatblyguln gyson, heb golli gafael ar y nod syml a diamwys o ddiogelu'r iaith Gymraeg. I wneud hynny rhaid oedd iddi ddod wyneb yn wyneb a phroblemau economaidd a chymdeithasol megis tai haf, cau ysgolion; twristiaeth, yr angen am gynllunio ieithyddol. Wrth geisio dello a'r problemau hyn crewyd corff o bolisiau y mae'n rhaid eu cysylltu l'r dadansoddiad Sosialaidd gan mai ynddynt hwy yn unig y gwelai y gymdeithas amodau byw i'r iaith Gymraeg.

Datblygodd y Gymdeithas felly o fod yn fudiad dros statws o fewn y drefn bresennol i fod yn fudiad a rydd y prif bwyslais yn awr ar amddiffyn bywyd cymdeithasau lleol yn eu cyfanrwydd, (fel yr unig ffordd i amddiffyn eu diwylliant). Cawn ddadansoddiad manwl o hyn yn y bennod olaf.

Yn fyr, gwelodd Cymdeithas yr Iaith na phery'r Gymraeg oni bydd parahd i'r gymdeithas o bobl sy'n siarad yr iaith honno; golyga hyn amddiffyn seiliau materol y cymunedau. Y mae hyn yn wir am ein cymunedau led-led Cymru, o'r gymuned wledig Gymraeg i'r gymuned ddinesig Saesneg. Ni ellir adfer y Gymraeg ond yng nghyd-destun cymdeithas fyw, a bydd iachâd y Gymraeg ynghlwm wrth adferiad cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach. Dyna'r rheswm dros ddatblygu set o bolisiau a elwir yn gymdeithasiaeth, sef polisiau a fyddai'n rhoi'r grym i gymunedau i reoli eu tynged eu hunain, gan na chredwn y gall mympwy buddiannau'r farchnad a chyfalaf breifat fyth amddiffyn cymdeithasau Cymraeg.

Brwydr i ryddhau pobloedd oddi wrth y camddefnydd a wneir o gyfalaf preifat, a gwladwriaethau canoledig yw ein brwydr ni, sy'n ymgiprys i roi i gymunedau lleol y reolaeth lwyraf dros yr economi, tai, addysg, yr heddlu a grym llywodraeth. Am inni fabwysiadu set o bolisiau o'r fath gyda budd y gymuned yn llinyn mesur, yr ydym wedi ein rhestru yn y sbectrwm gwleidyddol gyda'r mudiadau

Datblygodd ein athroniaeth ar ôl inni wreiddio'n ddwfn ym mhrofiad bywyd yng Nghymru, gydag ymwybyddiaeth o anghenion ei phobl. Athroniaeth hanfodol Gymreig yw sy'n berthnasol i bobl Cymru.

Eithr yn wahanol i lawer o fudiadau eraill nid academiaidd mo'r athroniaeth i ni. Nid ymdynghedsom i fod ar y naill law'n grwp ymchwil pur, gan gynhyrchu polisiau toreithiog nac ychwaith yn chwyldroadwyr tywydd teg, drwy leddfu cydwobod nawr ac yn y man gyda datganiadau eithafol yn unig. Cymdeithas weithredol yn ei hanfod yw Cymdeithas yr Iaith. Yn ystyr lletaf y gair. Yr ydym yn y busnes difrifol o weithredu'n polisiau a'u troi'n ffaith.

Rhodewn sylw cyfartal yn y Maniffesto felly i ddulliau a fyn wireddu'n polisiau.

Yn wahanol eto i lawer mudiad yng Nghymru, y mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad di-drais. Nid cyfyngiad negyddol mo hyn ar ein gweithgarwch ond ffordd gadarnhaol a nerthol i frwydro. Yn y gorffennol, rhoddod y dull di-drais o weithredu grediniaeth a grym i brotestiadau'r Gymdeithas o'i gymharu â byr hoedledd llawer mudiad arall yng Nghymru a ddewisodd ddulliau treisiol geisio creu newid. Dyna'r gred a fu wrth wraidd parodrwydd

Cymdeithas yr Iaith i weithredu'n uniongyrchol ar hyd y blynyddoedd ac ym mhob agwedd o fywyd yng Nghymru. Mae'n arf, ac yn ddull effeithiol a disgybledig o ymgyrchu.

Ni honnodd y Gymdeithas erioed y gallai gyflawni'r cyfan o'r newidiadau drwy ei hymdrechion ei hunan yn unig. Nid maniffesto cyfyngedig i aelodau'r Gymdeithas hon mo hwn, ond yn hytrach i bobl Cymru'n gyffredinol gan geisio ymateb pendant. Yn gyntaf oddi wrth pobl Cymru fel unigolion, gan obeithio y gwnant ddysgu a defnyddio'r iaith yn eu bywyd beunyddiol, a phwyso am bolisiau mewn mudiadau y maent yn perthyn iddynt, yn ogystal ag ymaelodi yng Nghymdeithas yr Iaith. Yn ail, gan fod angen ffrynt unol gan wahanol fudiadau sy'n bleidiol i barhad yr iaith, ceisiwn gytundeb a chyd-

weithrediad sefydlog a fydd yn seiliedig ar y polisiau hyn. Yn olaf, daliwn fod ein cynigion yn berthnasol i bawb yng Nghymru, gan ein bod yn gweld ein polisiau ac adferiad yr iaith yng nghyd-destun newidiadau ac adferiad cymdeithasol ehangach a galwn ar awdurdodau cyhoeddus, mudiadau llafur, a grwpiau pwysau lleol i roi sylw dirifol iddynt.

Dosberthir cynigion y Maniffesto a dan y penawdau cyffredinol canlynol:

- a) Nifer y siaradwyr Cymraeg a'r iaith fel cyfrwng cymdeithasol a diwylliannol. Cyn sefydlu Cymdeithas yr Iaith bu cnewyllyn o'n hiaithgarwyr yn ceisio dysgu a chynnal gweithgareddau yn y Gymraeg. Cwbl hanfodol yw'r gwaith hwn o hyd os yw'r iaith i fod yn gyfrwng byw i'r unigolyn. Etc, nid ydym yn fodlon ar hyn yn unig, gan fod pwysau allanol yn gallu tanseilio'n llwyr y gwaith clodwiw hwn.
- b) Sicrhau statws a defnydd i'r iaith ym mhob maes o fywyd cyhoeddus Cymru e.e. wrth ymdrin â llywodraeth, ffurflenni, gohebiaeth, arwyddion swyddogol, ac mewn masnach. Sicrhau statws hefyd, drwy gyfrwng teledu a radio, ac addysg. Ni ellir gorbwysleisio arwyddocâd y gwaith hwn, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r enillion real a sylweddol, cans yn eu sgil ceir newid yn ymwybyddiaeth ein pobl, gan waredu'r ysbryd o daeogrwydd, a rhyddhau ynni i ymgyrchu pellach. Dyma oedd prif thema Maniffesto cyntaf Cymdeithas yr Iaith.
- c) Sicrhau parhâd i'r cymdeithasau o bobl y mae'r iaith yn perthyn iddynt. Yma, ceir y sylweddoliad na all y Gymraeg, na'r gymdeithas o bobl y mae'r iaith yn perthyn iddynt orosi y tu fewn i'r drefn gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a fodola ar hyn o bryd. Golyga felly newid trwyadl yn null pobl o ffurfio polisiau tai, yr economi, a chynllunio. Ni all cymdeithas amddiffyn ei hun na'i diwylliant oni bo ganddi reolaeth dros y meysydd hyn. Dyma fydd prif faes maniffesto 1982. Eithr nid ydym yn colli gafael ychwaith ar (a) na (b) gan gadw cyfanrwydd ein perspectif.

Gosodwn yn ein Maniffesto faes llafur eang i'r wythdegau. Degawd yn 61 rhoed pwyslais arbennig ar Statws yr Iaith a Darlledu. Creu fframwaith cymdeithasol ac economaidd a wnawn yn awr, er prysuro'r newid a chychwyn ar gyfnod newydd. Erys yr her. Nid felly amser.

Yr iaith fel Cyfrwng Cymdeithasol a Diwylliannol

Ni ddefnyddia pobl iaith sydd yn cael ei chau allan o adrannau cyfain o fywyd. Mae'r sefyllfa hon yn creu dim llai na 'schizophrenia' cededlaethol sydd yn cyflymu tranc yr iaith Gymraeg. O safbwynt hyn felly dibynna parhad yr iaith ar ddau ffactor.

1). Yn gyntaf bod Cymry Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf. Cyfrannodd Cymdeithas yr Iaith yn helaeth yn y maes hwn drwy ddylanwadu ar benderfyniad rhieni yn dilyn yr ymwybyddiaeth a'r ewylllys newydd a ddaeth i fod drwy frwydr yr iaith. Yn ogystal fi hyn daeth rhieni i weld fod mwy o werth pendant a diriaethol iddi yn sgil ei defnydd helaethach ym mywyd cyhoeddus. Adeiladwn ar y sgaffaldau hyn drwy argymhell nifer o gamau a wna ddefnydd o'r iaith yn anorfoddedd llawen.

Crybwyllwyd hyn yn Adroddiad Terfynol Cyngor yr Iaith Gymraeg. Mae angen ymgyrch gyhoeddusrwydd o blaid y Gymraeg. Dylai'r llywodraeth Ganolog drwy'r Swyddfa Gymreig ymgymryd i'r gwaith yma. Dylid defnyddio cyfryngau fel y teledu a radio i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith gan roi gwybodaeth o'r adnoddau sydd ar gael e.e. taflenni, ffurflenni ac ati. Byddai ymgyrch o'r fath yma o du'r llywodraeth yn cario grym, ac yn dwyn pwysau sylweddol ar y cyhoedd.

2). Yn ail, rhaid inni ennill cynifer ag sy'n bosibl o'r boblogaeth ddi-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Cyfrannodd Cymdeithas yr Iaith tuag at y gwaith hwn mewn llawer dull a modd.

Un o'r digwyddiadau a ddaeth yn boblogaidd oedd penwythnos y dysgwyr a drefnwyd gan y mudiad yn Llangrannog. Cyhoeddwyd posteri'n annog pobl i ddysgu Cymraeg, 'Dysgwch Gymraeg y gaeaf hwn' oedd un o'r hysbysebion cyntaf. Cyhoeddwyd taflen wybodaeth ar sut

mae dod o hyd i gwrs i ddysgwyr. Anogwyd celloedd i drefnu cyrsiau i ddysgwyr. Gwelwyd yr angen gan y Gymdeithas am gyrsiau shifft, hyfforddi hyfforddwyr, cyrsiau undydd, croesi'r bont, ynghyd ag ymgyrchu am gyrsiau ar gyfer gwaith arbennig (gweler y daflen 'Rhyddhau gweithwyr ddysgu Cymraeg').

Yn y maes hwn yn arbennig cafwyd ymateb, a llawer ohono'n ffafriol e.e. dywed Cyngor Gwynedd fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn fodlon ad-dalu costau unrhyw aelod o'r heddlu sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg drwy gyfrwng cwrs cydnabyddedig. Hefyd 'bod modd i heddwys . i gael pob cymorth fel newid shifftiau os y bydd y rhain yn effeithio ar yr amser astudio'.

Bu'r Gymdeithas yn dwyn pwysau a gyrrff cyhoeddus eraill i ryddhau'u gweithwyr ynghyd g gofyn i'r cyflogwyr gymell eu staff i ddysgu Cymraeg.

Hyrwydda'r grŵp dysgwyr hefyd y cynllun siarad a dysgwyr, ynghyd a chynllunio a chyhoeddi defnyddiau dysgu, a gemau ysgafn.

Onid ni ddibynna parhad yr iaith gymaint ar nifer yr unigolion sy'n meddu gwybodaeth ohoni, eithr yn hytrach ar y defnydd cymdeithasol a wneir ohoni. Wedi'r cyfan, ffenomenon gymdeithasol yw iaith, ac mae'n ffynnu yn unig os oes bywyd afieithus a chyflawn i'w fyw drwyddi. Dyma fu prif ddiddordeb caredigion yr iaith ers y deffroad yn y can mlynedd diwethaf, er enghraifft yr Eisteddfod, yr Urdd, adfywiad llenyddol a dramâu. Cyfrannodd Cymdeithas yr Iaith yn uniongyrchol at y maes hwn, drwy drefnu digwyddiadau Cymraeg yn enwedig ymhlith yr ifanc. Sbardunodd y Gymdeithas lawer o'r gwaith, a'i effaith yw uniaethu y Gymraeg yn fwy yn awr a'r hyn sy'n newydd ac ifanc yng Nghymru yn hytrach na'r hen a'r dihoenus, gan ddefbro awydd yn y Gymraes/Cymro fyw drwy gyfrwng yr iaith honno.

O frwydr yr iaith yr esblygodd digwyddiadau eraill a roddai fywyd i'r iaith gydag aelodau o'r Gymdeithas yn sefydlu siopau, cylchgronau, cwmnïau recordiau, papurau bro ac ati. Dengys hyn yr asio sydd rhwng yr adfywiad cymdeithasol a'r deffroad gwleidyddol. Ânt law yn llaw. Yn nialectig y frwydr a

osodir allan yn y maniffesto, nid yw un rhan o'r frwydr yn gorffen a rhan arall yn cychwyn; gwahanol agweddau'n cyd-ddatblygu ydynt. Cyfraniad Cymdeithas yr Iaith yn awr fydd cynllunio'n ieithyddol drwy ddadansoddi anghenion yr iaith mewn cymdeithas leol.

Rhaid yw parhau'r gwaith pwysig o gynnal y bywyd cymdeithasol ffyniannus hwn, ond rhaid hefyd inni gofio na all gwaith adeiladol fel hyn lwyddo mewn gwagle. Yr hyn a roddodd fod I Gymdeithas yr Iaith a darlith radio Saunders Lewis 'Tynged yr Iaith', oedd y sylweddoliad fod symudiad arall ar waith yng Nghymru a danseiliai'r union waith adeiladol hwn. A hynny oedd y sgitsoffrenia Cymreig, fod y Gymraeg yn lawn fel cyfrwng cymdeithasol, ond mai Saesneg oedd iaith masnach, llywodraeth, darlledu, adyysg ffurfiol ac ati. Gyda sefyllfa fel hon, gwanychai'r Gymraeg. Ai'n ddibwys. Wedi rhybuddion 'Tynged yr Iaith' Saunders Lewis, ymaflodd Cymdeithas yr Iaith yn y gwaith o sicrhau cyfanrwydd profiad i'r iaith, drwy sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o fywyd.

Hefyd yr oedd ymglyfngu gan garedigion yr iaith ar greu bywyd cymdeithasol Cymraeg, yn anwybyddu pwysigrwydd seiliau materol cymdeithasau Cymraeg, ac yn methu eto a gweld cyfanrwydd y perspectif. Tanseilid y gwaith am fod cymdeithasau Cymraeg yn chwalu oherwydd diffygion mewn tai, cynllunio, cyflogaeth ac ati. Yn ddiweddar y datblygodd y mudiad yn y maes hwn, ac o'r herwydd dyna fydd prif adran y maniffesto hwn.

Cydnabyddwn felly, bwysigrwydd yr ymdrech i sicrhau bywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymraeg. Ond symudwn ymlaen i osod allan ein hargymhellion ar sut y gellir sicrhau defnydd llawn i'r iaith ym mhob maes o fywyd Cymru a sut y gellir diogelu cymdeithasau Cymraeg.

Statws Swyddogol i'r Iaith

STATWS I'R IAITH MEWN LLYWODRAETH A CHYRFF CYHOEDDUS.

Beth a olygir wrth statws llawn.

Cred Cymdeithas yr Iaith y dylid gweithio tuag at sefyllfa lle bydd y Gymraeg yn brif iaith swyddogol Cymru, fel mae'r Ffrangeg yn brif iaith swyddogol Ffrainc, yr Almaeneg yw prif iaith swyddogol yr Almaen ac yn y blaen. Fe ddylai unrhyw iaith arall, gan gynnwys y Saesneg, fod yn iaith swyddogol arall - fel y mae'r Saesneg neu'r Almaeneg yn Ffrainc, a'r Saesneg a'r Ffrangeg yn yr Almaen ac yn y blaen. Mae'r nod honno'n hollol

Er mwyn cyrraedd y nod honno mae'r amserlen a'r tactegau yn amrywio o ardal i ardal. Yn ardaloedd Cymreiciaf Cymru nid oes unrhyw reswm, mewn gwirionedd, pam na all sefyllfa o'r fath fodoli'n syth (ac eithrio oherwydd diffyg ewylllys).

Mewn ardaloedd llai Cymraeg mae angen mynd trwy'r cam o ddwyieithrwydd i gyrraedd y sefyllfa o'r Gymraeg yn brif iaith swyddogol.

Ond dylid cyhoeddi'n glir mai sefyllfa dros dro yn unig yw dwyieithrwydd gyrraedd y nod lawn a bad hyd y cyfnod o ddwyieithrwydd, a'r math o ddwyieithrwydd, yn dibynnu'n llwyr ar natur ieithyddol yr ardal dan sylw.

Pwysigrwydd Statws i'r Gymraeg.

Mae ennill statws llawn i'r iaith Gymraeg yn bwysig am ddau reswm.

- Yn gyntaf, ac yn naturiol, mae bawl gan bob Cymro a Chymraes i weld ac i ddefnyddio ei famiaith (mamiaith) lle bynnag a phryd bynnag mae'n dymuno.

Yn anffodus mae'r sefyllfa hon

yn bell o fod yn wir. Er i Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a basiwyd bum mlynedd ar 61 sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, roi'r un dilystrwydd i'r Gymraeg lle y'i defnyddir, ag i'r Saesneg, doedd a does dim unrhyw reidrwydd ar i neb ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal â hyn, er i gannoedd, os nad miloedd, o ffurflenni/posteri/taflenni/llyfrynau ac arwyddion gael eu cyhoeddi'n Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae dal llawer mwy o bethau uniaith Saesneg ar gael. Hefyd mae'r sefyllfa o beth sydd a beth sydd ddim ar gael yn y Gymraeg (fe gyhoeddwyd y llyfryn gwybodaeth diwethaf gan y Swyddfa Gymreig ym 1967) mor anhygoel o niwlog ac ansicr fel nad oes neb yn gwybod beth yw'r sefyllfa mewn gwirionedd. Canlyn^ad naturiol hyn yw i'r Cymro/Cymraes ddefnyddio'r deunydd Saesneg sydd yn rhwydd, ac yn amlwg i'w gael. Yr un yw'r sefyllfa wrth chwilio am staff sydd yn siarad Cymraeg - swrth ac anghwrtais yw'r ymateb i'r rhan fwyaf o ymholiadau yn Gymraeg gan staff cyrff a masnach cyhoeddus a phreifat yn ogystal ag adrannau llywodraeth, nes perl i'r Cymro/Gymraes eto droi i'r Saesneg er mwyn hwylustod.

Mae'r broblem o staff sydd yn methu neu'n gwrthod siarad Cymraeg yn un real iawn. Nid oes pwrpas yn y byd i gorff neu sefydliad gynhyrchu posteri/taflenni/ffurflenni ac yn y blaen yn Gymraeg os nad yw'r staff sydd yn cyfarfod a'r cyhoedd yn gallu siarad Cymraeg, ac os yw'r ffurflenni Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg yn ystafelloedd cefn y swyddfa, er mwyn cael eu prosesu yng Nghaerdydd neu yn Lloegr. Statws arwynebol iawn yw statws o'r fath hwnnw.

b) Yn ail, ac o bosibl yn bwysicach nag (a), yw'r effaith seicolegol anffurfiol mae gweld a defnyddio'r Gymraeg yn hollol ddi-rwystr yn ei gael ar bobl - yn Gymry Cymraeg ac yn Gymru Di-Gymraeg. O safbwynt y Gymry Cymraeg, mae gweld yr iaith yn cael ei defnyddio yn swyddogol ac yn gyhoeddus o'u cwmpas yn hwb amlwg iddynt ddefnyddio'r Gymraeg eu hunain a throsglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r cynnydd yn y swyddi ble mae'r Gymraeg yn "fanteisiol" neu'n "anqen-rheidiol" yn dangos yn glir

bod modd "dod ymlaen yn y byd" (yr hen fwan a fu'n gymaint o rwystr i'r iaith yn y gorffennol) gyda'r Gymraeg. O safbwynt y Di-Gymraeg, mae gweld yr iaith o'u cwmpas yn gymhelliaid ychwanegol iddynt ei dysgu - wedi'r cyfan nid oes neb yn mynd i ddysgu iaith nad yw'n cael ei defnyddio'n feunyddiol.

Credwn felly, bod gweld a chlywed a chael yr hawl a'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol, yn aruthrol bwysig yn y broses o greu ymwybyddiaeth ymysg pobl Cymru o blaid y Gymraeg ac o blaid Cymreictod. I'r perwyl hwn, credwn bod siarad a defnyddio'r Gymraeg yn weithred wleidyddol ynddi'n hun, a bod statws llawn i'r iaith yn gam angenrheidiol yn y frwydr seicolegol honno, ac o'i hennill yn gwneud ymgyrchoedd eraill megis adyysg a darlledu'n haws i'w deall a'u hennill.

20 Mlynedd o ymgyrchu.

Gyda hyn mewn golwg, fe ymrôdd y Gymdeithas yn y 60au a'r 70au cynnar i frwydro, bron yn llwyr, dros statws i'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd.

Yn y cyfnod cyn sefydlu Cymdeithas yr Iaith doedd yr un ffurflen Gymraeg/dwyieithog yn bodoli - ym 1967 fe basiwyd Deddf yr Iaith a oedd, er yn hollol annigonol, yn cydnabod bodolaeth swyddogol y Gymraeg.

Yn 1967 fe gyhoeddodd y Swyddfa Gymreig lyfryn yn nodi'r holl ffurflenni Cymraeg a dwyieithog oedd ar gael. Yn anffodus mae pymtheg mlynedd wedi mynd ers hynny a does yr un ymgais wedi'i gwneud i ddiweddar'u'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y llyfryn.

Fe ymgyrchodd y Gymdeithas o blaid arwyddion dwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg, ac ym 1972 gyda chyhoeddi Adroddiad Bowen ar arwyddion ffyrdd, mabwysiadwyd yr egwyddor o arwyddion dwyieithog. Rhoddodd yr Adroddiad ddeng mlynedd i wireddu hyn a thrawsnewid holl arwyddion Cymru. Erbyn cyhoeddi'r Maniffesto hwn dymunwn nodi fod y Llywodraeth yn llusgo'i thraed. Aeth deng mlynedd heibio ac ni ddylwn weld yr un arwydd Saesneg ar dir ein gwlad

nac ychwaith unrhyw arwydd sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg.

Cyhoeddwn eto, fel ym Maniffesto 72, nad ydym yn barod i dderbyn sefyllfa o'r fath ac fe 'fydd Cymdeithas yr Iaith yn parhau i bwysu ac i weithredu hyd nes gwreiddu ein polisi, ac argymhellion Adroddiad Bowen, ar arwyddion ffyrdd.

Gan fod defnydd o'r Gymraeg mor ysig mewn cyrff cyhoeddus fe ymgyrchodd y Gymdeithas yn erbyn y Swyddfa Bost i sicrhau polisi o ddwyieithrwydd trwyadl. Mewn datganiad polisi ym 1975 fe gyhoeddodd y Swyddfa Bost ei bod yn mabwysiadu polisi newydd a oedd yn gosod dwyieithrwydd fel "y norm" yn eu choeddiadau a'u gweinyddiaeth. Dyma'r llwyddiant mwyaf yn banes yr ymgyrch statws. Dyma o'r diwedd gyrff cyhoeddus yn gosod y Gymraeg fel rhan hanfodol o'i welyddiaeth yn gorfod cyfiawnhau unrhyw wriad o'r 'norm' hwnnw. Yn affodus mae effeithiolrwydd gweithredu'r polisi yn tueddu i amrywio o Swyddfa Bost i Swyddfa Bost ac mae'n bosibl credu ar adegau nad oes polisi o unrhyw fath gan y Bwrdd Post ei hun.

Yn yr un modd aeth y mudiad rhagddo i danseilio unieithrwydd y rheilffyrdd Prydeinig gan ddilyn canllawiau gweithredu uniongyrchol ymgyrchoedd blaenorol.

Yr un oedd effaith y Gymdeithas wrth ymwneud â'r cynghorau ac adrannau o lywodraeth ganolog a chyrrff cyhoeddus eraill nes ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio'r Gymraeg peth o'r amser yn gyhoeddus.

Mae'r ymgyrch i weld a defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus eisioes wedi cael effaith seicolegol ar bobl. Bellach mae pobl yn ymwybodol o fodolaeth ac anghenion yr iaith a chredwn ei bod yn bosibl honni mai yn rhannol oherwydd llwyddiant Cymdeithas yr Iaith yn y frwydr i ddeffro ymwybyddiaeth pobl y gwelwyd arafiad yn nirywiad y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 1981 a hynny mewn cyfnod pan oedd mewnlifiad cyson a chynyddol o bobl di-Gymraeg i mewn i'r ardaloedd Cymraeg.

Ond mae'r sefyllfa'n bell o fod yn dderbyniol a dyna waith Cymdeithas yr Iaith yn yr 20 mlynedd nesaf.

Y Dyfodol.

Ein nód ym 1982 yw:

(a) Gwarchod yr hyn a enillwyd a cheisio ymestyn y defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd newydd, gan bwysu ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei gweinyddiaeth fewnol mewn ardaloedd lle mae'r iaith yn brif iaith y cymunedau lleol. Yn ogystal, dylid anelu fwy-fwy at hyrwyddo'r iaith yn y rhannau llai Cymraeg.

Mae'r elfen o warchod ac ymestyn yn holl bwysig oherwydd yr ansicrwydd o beth sydd ar gael y soniwyd amdano eisioes. Rhy hawdd yw'r ddatl "nad oedd neb yn eu defnyddio felly yr ydym wedi peidio a'u cyhoeddi yn Gymraeg!" Er mwyn gwarchod ac ymestyn, mae'n rhaid cadw gwyliadwriaeth gyson ar y sefyllfa. Golyga hyn arolygu'n gyson y deunydd sydd ar gael yn barod) gwneud yn siŵr fod popeth sydd ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gael i'r cyhoedd (ym mhob man) cyfarfod yn gyson gyda rheolwyr adrannau lleol a swyddfeydd lleol er mwyn trafod y sefyllfa ac er mwyn trafod datblygiad pellach yn y deunydd Cymraeg/dwyieithog; ysgrifennu'n rheolaidd at Gyfarwyddwyr/ Rheolwyr cenedlaethol a lleol a phapurau yn trafod ac yn beirniadu. Dim ond trwy wyladwriaeth o'r fath y gellir sicrhau gweithrediad llawn o'r polisiau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac y gellir anelu at ymestyn yn y dyfodol.

(b) Ar ol treulio 20 mlynedd yn ymgyrchu i gael yr egwyddor o statws wedi'i derbyn mae'n rhaid yn awr arwain yr ymgyrch i'w hystyr dyfnach ac i'w nod terfynol - sef Cymreigio'n llwyr weinyddiaeth fewnol ac allanol pob sefydliad cyhoeddus a phreifat ac adran o lywodraeth ganolog a lleol yng Nghymru.

Nid ydym yn barod i dderbyn bellach y stamp o Gymreictod, trwy gael ychydig o ffurflenni Cymraeg neu staff Cymraeg, ar sefydliad sydd yn hanfodol Brydeinig. Rhaid yn awr ymgyrchu i droi'r sefydliadau yn rhai Cymreig eu naws a'u teyrngarwch yn ogystal ag yn Gymraeg eu hiaith.

(c) Dylid dechrau trafod a phwyso nawr i sicrhau bod y cyrff sydd â pholisiau dwyieithog yn awr yn ara' deg yn eu troi'n bolisiau uniaith Gymraeg.

(ch) Er mwyn hyrwyddo (a) a (b) mynnwn Ddeddf yr Iaith newydd a fydd yn gosod rheidrwydd ar, ac yn cymell cyrff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu holl weithgareddau. Fe fydd Ddeddf a grym cyfarwyddo iddi'n gallu rhagfarnu o blaid y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus Cymru.

Mae'r hen ddeddf yn chwerthinllyd o wan ac annigonol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif.

Eisioes yr ydym yn y broses o gyfarwyddo a chomisiynu cyfreithiwr i lunio memorandwm a fydd yn gam cyntaf yn y broses o ddisodli Ddeddf Hughes Parry 1967 a rhoi deddf a fydd yn adlewyrchu grym yr iaith.

(d) Credwn hefyd ei bod yn holl bwysig i'r Swyddfa Gymreig drefnu ymgyrch o gyhoeddusrwydd o blaid y Gymraeg. Golyga hyn ei bod yn defnyddio'i holl gyfryngau cyhoeddusrwydd posibl i gyhoeddi beth sydd ar gael yn y Gymraeg, i gymell pobl i ddefnyddio'r deunydd sydd ar gael yn y Gymraeg ac i ddangos i bobl werth siarad, dysgu a defnyddio'r iaith yn feunyddiol. Mae nawdd swyddogol o'r fath yn hanfodol bwysig i sicrhau derbyniad a chynydd i'r iaith

Rhaid poblogeiddio'r iaith. Dangosom sut y bu inni ennill i'r iaith safle mwy swyddogol a chyfreithiol a hynny mewn cyfnod pan oedd yr iaith yn cael ei siarad gan drwch poblogaeth cynifer o gymunedau. Heddiw, oni cheir y sbardunau angenrheidiol, y mae perygl i'r iaith lafar droi'n iaith swyddogol, ffurflenyddol yn unig. Rhaid wrth ei chlywed a'i gweld i droi'r iaith yn ffaith.

Addysg

Rhagymadrodd.

Thema gyson trwy ddatblygiad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw'r angen am gynllunio manwl i greu strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Erbyn heddiw, ar ôl degau o flynydd- oedd o ddatblygu hap a damwain, gwelwn yr angen am gynllun datblygu cynhwysfawr i ddatblygu addysg Gymraeg.

Ers yr ymdrechion gwirfoddol arloesol yn Aberystwyth yn y pedwardegau, gwelwyd tyfiant graddol ysgolion Cymraeg, yn bennaf o fewn ardaloedd diwydiannol a threfol, yn rhanbarthau mwyaf seisnigedig Cymru; a rhaid cofnodi cyfraniad pwysig yr ysgolion hyn, yn enwedig, o bosibl, gan iddynt brofi ei bod yn bosibl i blant o gefndir cwbl ddi-Gymraeg dderbyn addysg yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg. Ochr yn ochr â hyn, gwelwyd ysgolion gwledig yr ardaloedd Cymreiciaf Cymru yn seisnigeiddio'n gyflym dan bwysau mewnlifiad cyson o blant di-Gymraeg, estyniad dinistriol y cyfryngau torfol ar iaith lafar ac agweddau plant ac ieuencid, ac yn bwysicach fyth, diffyg polisi ac arweiniad qan yr awdurdodau addysg i ymqiprys â'r problemau hyn, ynghyd â difaterwch a gelyniaeth corff o staff yr ysgolion.

Yn yr ardaloedd hynny lle mae'n bosibl cofnodi llwyddiant i gadw ysgol draddodiadol Gymraeg neu i sefydlu ysgol Gymraeg o'r newydd, yn ddiffael gellir cyfeirio'n uniongyrchol at ymgyrch qan rieni, brwydro hir, ac ymroddiad a dycnwch qan gorff o staff sydd yn sylwedd- oli pwysigrwydd darpariaeth o'r

fath - ymroddiad sydd yn aml wedi ei gosod mewn gwrth drawiad uniongyrchol a'u cyflogwyr.

Ac eithrio am y pcedi qwasgareidg hyn, parhau y mae'r gyfundrefn addysg i danseillio'r diwylliant Cymreig a bywyd cymdeithasol Cymraeg.

Conglfaen polisi addysg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yw hawl pob plentyn i dderbyn addysg yn gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg, a sylweddoliad o rol sylfaenol y gyfundrefn addysg yn y broses o adfer a chynnal bywyd cymdeithasol Cymreig a Chymraeg.

Ni dderbyniwn bellach y datblygu mympwyol sydd wedi bod yn nodwedd o hanes addysg Gymraeg. Daeth yr angen ar gyfer ymdrech ar y cyd rhwng pawb sydd yn gyfrifol am addysg yng Nghymru i lunio a gweithredu rhaglen ddatblygu a fyddai'n sicrhau estyniad cyson o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i bob rhan o Gymru. Mae angen i ba bynnag gorff a fyddai'n cyd-gysylltu'r cyr.llun feddu ar yr hawliau i oruchwylio a chyfarwyddo'r holl sbectrwm o addysg, o addysg feithrin (er mwyn paratoi'r plant ieuengaf ar gyfer addysg Gymraeg beth bynnag fo'u cefndir) hyd at.ac yn cynnwys, addysg coleg a phrifysgol (er mwyn sicrhau fod yna ddigonedd o bobl gymwys i ddysgu pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i baratoi deunydd a gwerslyfrau, etc.) Dylai fod cyllid digonol ar gael i sicrhau amrywiaeth o werslyfrau felly wedi'u trosi i'r Gymraeg, neu wedi eu cyfansoddi o'r newydd, ac i ryddhau athrawon am gyfnodau o'u gwaith i wneud hyn. Mae'n rhaid i hyn ddiwydd ar raddfa llawer iawn mwy na'r hyn a welwyd hyd yma, a gosodwn gyfrifoldeb ar y llywodraeth i fuddsoddi'n ariannol er mwyn creu saliau newydd ar gyfer addysg yng Nghymru. Os yw hi o fewn gallu'r llywodraeth i glustnodi dros £55,000,000 y flwyddyn ar gyfer hyrwyddo addysg freintiedig, y lleiaf y gallwn ei hawlio yw buddsoddiad cyfartal er mwyn talu iawn am flynddoedd o bolisiau dinistriol.

ADDYSG CYN-FEITHRIN/"RHIANT A'I BRAM"

Credwn fod addysg yn cychwyn cyn cyfnod meithrin, a bod modd dylanwadu'n ieithyddol ar blant yn gynnar iawn o greu'r awyrgylch

9ywir. Anogwn ddatblygiad o gylchoedd "Rhiant a'i Bram" er mwyn cynyrthwyo rhieni di-Gymraeg a'u babanod i dymuno addysg feithrin Gymraeg i'w plant. Nid yn unig hyn ond bydd yn fodd o ymdoddi'r di-Gymraeg i mewn i gymdeithas Gymraeg a chreu ymwybyddiaeth eu bod yn perthyn i gymuned Gymraeg. Diau y bydd hyn yn nacâu'r angen am y grwpiau Saesneg mewnblwyg sy'n codi yng nghefn gwlad Cymru heddiw.

MEITHRIN

Tuedd awdurdodau addysg yw gadael yr haen yma i fudiadau gwirfoddol. Cydnabyddwn waith clodwiw'r Mudiad Ysgolion Meithrin, a hynny o dan amodau digon anodd. Ond gan fod yr adran feithrin Gymraeg yn rhan mor sylfaenol ac allweddol fel iaith gyntaf neu ail iaith, dylai'r awdurdodau addysg roi pob cymorth ymarferol i'r ysgolion sydd ar gael yn barod wrth ddarparu adnoddau a chynnig canolfannau ac adeiladau. Dylid anelu yn y tymor hir, fodd bynnag, at gael uned feithrin yn rhan o bob ysgol gynradd. O wneud hyn, pitw iawn fydd y broblem ieithyddol erbyn i'r plentyn gyrraedd 4-5 oed.

Credwn mai cyfrifoldeb yr awdurdodau cyhoeddus yw darparu'r addysg hon.

BABANOD A CHYNRADD.

Galwn ar i awdurdodau fabwysiadu polisi cyfansawdd a fydd yn sicrhau lle teilwng a blaenllaw i'r iaith Gymraeg, gan ei bod yn ymarferol bosibl i bob plentyn fod yn rhugl cyn gadael yr ysgol gynradd.

Cuddio y tu ôl i fantell fraith o ddwyieithrwydd a wna awdurdodau fel Clwyd a Dyfed, heb ddiffinio'n fanwl o gwbl yr hyn a olygir mewn gwirionedd. Amrywia cyrhaeddiadau ieithyddol yn fawr o fewn dwy ysgol gyfagos. Llwydda ambell ysgol yn eithriadol o dda o dan amgylchiadau anodd, tra bod ambell un yn methu'n affwysol.

Ceir amrywiaeth felly'n aml rhwng gwahanol ddosbarthiadau o fewn ysgolion. Amlinella hyn yr angen am bolisi cynhwysfawr gan awdurdodau.

Yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith yn gyfrwng naturiol, gwelir yr angen am gofrestru pob ysgol yn ysgol Gymraeg. Cymraeg fyddai cyfrwng yr addysg,

chwaraeon, a gweinyddiaeth yr ysgol. O adael pethau fel y maent, y mae perygl gwirioneddol i'r "ymddi-gymreigio" ddigwydd fwyfwy mewn ardaloedd yr arferid eu hystyried yn gadarn-leoedd yr iaith, a hynny oherwydd y mewnlifiad di-Gymraeg.

Mewn ardaloedd llai Cymraeg, credwn y dylai ysgolion swyddogol Cymraeg fod o fewn cyrraedd pawb, ac yn yr ysgolion eraill, y dylai athro iaith arbenigol fod ym mhob ysgol, a chanddynt bolisi a chyfarwyddyd clir y tu ôl iddynt er mwyn dysgu'n effeithiol fel bo'r dewis gan y plant wedyn o addysg mewn ysgol Gymraeg. Byddai addysgu'r di-Gymraeg a chyrsiau dwys/carlam yn fodd i brysuro mabwysiadu iaith newydd.

Gellid hybu addysg Gymraeg trwy ddsbarthu llyfrynau i'w dosbarthu i rieni di-Gymraeg, a fyddai'n amlinellu amcanion a gwerth yr addysg hwn. Gresyn yw gorfod ychwanegu y byddai addysg ynghylch addysg o'r math hwn o fudd sylweddol i'r rhieni Cymraeg hefyd.

CANOLFANNAU I FEWNFUDWYR.

Dylid darparu cyrsiau mewn canolfan- nau dyddiol arbennig ar gyfer y rheini sydd dros 6 neu 7 oed, a'r cyrsiau carlam ar gael o fewn cyrr- aedd rhesymol. Er i ni fel mudiad alw am hyn flynyddoedd yn ôl, ceir mwy a mwy o gefnogaeth i'r syniad gan y rheini sydd yn y proffesiwn, ac aethpwyd ati i gynnal ambell gyfnod felly mewn gwersyll gwyliau gan rai unigolion brwdfrydig o athrawon. Tristwch yw gweld na weithredwyd ar y syniad o du'r awdurdodau.

Gyda chanolfannau fel hyn wedi eu staffio ydad athrawon profiadol ac arbenigol, gyda chyfarpar modern, hwylus, gellir gwneud y lleoedd yn atyniadol iawn. Hawdd fyddai cyfuno hwyl a dysgu. Rhaid fyddai gwario arian sylweddol arnynt yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan dalu am gludo'r plant, yn ogystal S darparu mannau i fewnfudwyr o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd.

O orfodi pob un nad yw'n medru'r Gymraeg i fynd ar gwrs o ryw ddeufis neu dri, byddai hyn yn gyfnod digon sylweddol i drwytho'r plentyn yn yr iaith, a hynny gyda disgyblion eraill. Gellir ennill

cam seicolegol pwysig, sef bod dysgu'r Gymraeg yn gam cyntaf yng ngyrfa addysgol plentyn.

YSGOLION UWCHRADD.

Yr unig sustem a wna degwch â gofynion a galwadau disgyblion a rhieni yw sustem gyfun, a'r ysgolion hynny heb fod yn rhy fawr. Mewn dogfen a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas ym 1976, nodwyd y rhif delfrydol o 500 - 700 i bob ysgol. 'Roedd hyn yn dderbyniol gan y mwyafrif o arbenigwyr profiadol ym maes addysg. Trwy alw ysgol yn Ysgol Gymraeg, sicrha hyn fod pob pwnc yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r gweinyddiaeth. Yn yr ysgolion dwyieithog presennol, tuedd i ffafrio dysgu pynciau gwyddonol trwy gyfrwng y Saesneg. Rhaid newid hyn er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng naturiol i fywyd cyflawn.

Dylai addysg uwchradd Gymraeg fod yn ddilyniant naturiol yn yr ardaloedd Cymraeg. Dylai addysg uwchradd Gymraeg fod o fewn cyrraedd pob plentyn. Gwrthodwn y syniad o ffrydio a dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion Saesneg a Seisnig. Yn ystod y cyfnod o gyf- newid tra pery ffrydiau Cymraeg, mae angen darpariaeth i sicrhau dysgu pob pwnc yn Gymraeg yn yr ysgolion hyn hefyd. Cydnabyddwn bod yn rhaid wrth nifer o ysgolion Saesneg, ond mynnwn yn dalog y dylid sefydlu Ysgol Gymraeg fel norm i bob dalgylch. Gyda thwf y sector gynradd, fe ddaw galw am addysg uwchradd Gymraeg, a hynny fel y peth naturiol i'w wneud.

Ar hyn o bryd, sefydlir pob ysgol ddwyieithog yn y trefi neu mewn ardaloedd di-Gymraeg, sef Clwyd a Morgannwg Ganol. Trist yw datgan y bu'n rhaid ymgychu'n galed i gael Cyngor Dyfed i weld pa mor gymwys yw sefydlu ysgol ddwyieithog mewn ardal wledig Gymraeg.

Yn yr ardaloedd llai Cymraeg, dylai addysg Gymraeg fod o fewn cyrraedd rhesymol i bob plentyn, gyda'r awdurdod yn talu am gostau cludo. Dylid dysgu'r iaith yn yr ysgolion Saesneg fel pwnc ail iaith, gorfodol Rhaid wrth effeithiolrwydd dysgu. Rhaid wrth ddefnydd o ganolfannau a gwersylloedd yn y cyswllt hwn eto, lle y gall y Gymraeg droi o fod yn

bwnc academiaidd at fod yn gyfrwng cymdeithasol. Gellid hybu'r dysgwyr trwy ffurfio Clwb Dysgwyr o fewn yr ysgol, a'r Gymdeithas yn cwrdd yn rheolaidd, e.e. yn ystod yr awr ginio. Atgyfnerthir ymwybyddiaeth o'r iaith trwy ddysgu Astudiaethau Cymraeg, ond ni ddylent gymryd lle gwersi Cymraeg. Ni ddylid edrych ar yr iaith fel iaith estron. Dylid cael athrawon sy'n arbenigo yn y Gymraeg yn unig.

ADDYSG OEDOLION.

Credwn y dylid darparu cyrsiau nos i oedolion a fydd trwy gyfrwng y Gymraeg - e.e. gwaith coed, arlunio. Mae angen cyrsiau i ddysgu Cymraeg i oedolion, a'r rheiny'n addas a pherthnasol i swyddogion a gweithwyr llywodraeth leol, er mwyn eu galluogi yn y pen draw i weinyddu yn Gymraeg.

Byddai defnydd o adeiladau a cholegau y yn nos yn gaffaeliad hefyd i drefnu cyrsiau, yn ogystal a'u trefnu yn ystod y gwyliau. Ni ddylid codi tâl am ddefnydd, gan mai hwyluso gwaith yr awdurdodau addysg a wna darpariaeth o'r fath drwy'r broses o gymhathu'r di-Gymraeg a'r mewn fudwyr a'u troi'n ddwyieithog.

Gellir defnyddio adeiladau cyhoeddus eraill, e.e. llyfrgelloedd, pyllau nofio, i hyrwyddo dysgu Cymraeg trwy weithgareddau fel nofio ac ati.

CYNNWYS ADDYSG.

Cyn bwysiced a chyfrwng iaith yr addysg yw ei chynnwys. Wedi'r cyfan, hyn fydd yn magu ynddynt ddealltwriaeth o'r gymuned y maent yn byw ynddi, a rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb iddynt. Tueddwn i esgeuluso'r cynnwys am fod cymaint o ymgyrchu'n gorfod cael ei wneud dros y cyfrwng. Ond i greu ymwybyddiaeth Gymreig a Chymraeg, rhaid canolbwyntio'n sylw yr un mor gyfartal ar ei chynnwys.

Yn gyntaf, credwn fod angen gwell cysylltiad rhwng addysg gynradd ac uwchradd, yn hytrach na'r naid eithafol o un ris i'r llall. I greu unoliaeth rhwng yr hyn a ddysgir yn y gwahanol lefelau, rhaid wrth ddealltwriaeth rhwng y gwahanol adrannau addysgol o'r hyn y maent yn ymgyrraedd ato.

Rhywbeth sy'n rhan annileadwy o

gymdeithas yw addysg, a chredwn bod yn rhaid i ni newid ymagwedd pobl i weld addysg mewn cyd-destun cymdeithasol. Yn hyn o beth, dylid gwneud defnydd helaeth o'r adeiladau er budd y gymdeithas leol.

Er ein bod yn galw am addysg Gymraeg, mae angen hefyd gyfundrefn o addysg sy'n Gymreig, gan nad yw cyfundrefn Brydeinig yn addas i Gymru. 'Does fawr o wahaniaeth rhwng amserlen addysg yn ysgolion Lloegr a Chymru, yn sylfaenol. Mae angen sicrhau fod plentyn yn tyfu'n llawn drwy adnabyddiaeth o'i amgylchfyd a'i gymdeithas ei hun, cyn ehangu i ddwyn y byd ehangach Ewropeaidd i mewn. Gellir cyflawni hyn drwy:

(a) Ddysgu am hanes lleol a'i osod yn fframwaith hanes Cymru, a hwnnw o fewn hanes Ewrop a'r byd. Nid dysgu hanes trwy lygaid y Sais a ddylem, ond meithrin gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'n cenedl ein hun.

(b) Gellir dysgu am ddaearyddiaeth bro a gwlad yn yr un modd S llenyddiaeth a cherdoriaeth.

(c) Dysgu'r disgyblion am yr economi leol, sut y mae llywodraeth leol yn gweithio - a gwneud arolygon.

(ch) Datblygu hefyd ymwybyddiaeth wleidyddol, gan drafod gwahanol safbwyntiau yn y cyd-destun lleol/rhyngwladol.

(d) Dadansoddi'n feirniadol y cyfryngau ac arweithiau o'u papurau eu hunain. Fel hyn y dđnt yn hyderus a galluog i ddatblygu ac amddiffyn eu cymunedau eu hunain, a bydd hyn yn sylfaen dda i gymunedau'r dyfodol.

Mae angen darparu addysg hefyd a fydd yn gwasanaethu anghenion lleol, a'u paratoi i wasanaethu anghenion lleol. Pwysig felly yw cynnig pynciau ymarferol, megis amaethyddiaeth mewn ardal wledig/garddio/gwyddor tŷ. Y nod terfynol yw eu bod yn dod i wasanaethu'r gymdeithas leol, yn y diwydiannau a'r gwasanaethau lleol, eithr nid mynd yn abwyd ar gyfer y gwasanaeth sifil na diwydiant mawr, chwaith.

Ni ddylid darparu fwy ar gyfer y disgybl academiaidd na'r llai disglair eu gallu. Y mae angen gwneud addysg plentyn o bob cyrhaeddiad yn ddiddorol a perthnasol. Gyda'r rheiny sy'n academiaidd, ac na chânt adael yr ysgol tan 16+, dylid eu haddysgu ar sut i ymdopi a phroblemau personol a all godi, e.e. diweithdra/edrych ar ôl plant bychain a babanod. Byddai cwrs ar sut i edrych ar ôl baban yn ddefnyddiol i'r ferch ac i'r bachgen, yn wyneb y cynnydd mewn traïs.

Gyda thraïs ar gynydd ar bob lefel yn ein cymdeithas, credwn fel mudiad di-draïs y dylid addysgu'r disgyblion ymarweddiad gwrth-dreisiol, ynghyd a'u haddysgu ar sut i ymddwyn mewn sefyllfaoedd treisiol, e.e. sut y dylai'r ferch ddelio a phroblemau traïs (rhywiol).

Ein nod yn y tymor hir yw newid cwricwlwm y wladwriaeth gorfforedig y mae'r iaith Saesneg yn symbol ohoni, a mynd ati i seilio addysg ein plant yn y cymunedau Cymraeg.

ADDYSG DROS 16 OED.

1. Cred Cymdeithas yr Iaith y dylai'r egwyddor o addysg gyfun gael ei dilyn yn ddi-eithriad trwy'r holl sistem o addysg ffurfiol - o'r ysgol gynradd trwyddol i goleg a phrifysgol.

I'r perwyl hwn, cred y Gymdeithas y dylai'r addysg a gynigir i bobl ar 61 16 oed adlewyrchu'r egwyddor hon trwy sicrhau bod addysg gyfun ar gael yn rhad ac am ddim i bawb sy'n ei dymuno. Yn ddelfrydol, dylai'r addysg bellach hon fod yn estyniad naturiol, ac yn rhan o, gwricwlwm yr ysgol, yn cynnig cyrsiau lefel 'A' (fel yn yr ysgolion uwchradd presennol), ac yn cynnig cyrsiau addysg bellach sydd yn arwain at dystysgrifau a phrentisiaethau (fel y Colegau Addysg Bellach swyddogol).

2. Dylid rhoi terfyn unwaith ac am byth ar yr arfer elitaidd o ganiatáu cyrsiau lefel 'A' yn unig o dan do'r ysgol, gan orfodi'r disgyblion eraill i fynychu Colegau Addysg Bellach am addysg sy'n berthnasol i'w anghenion ac anghenion yr ardal.

Dylid rhoi terfyn hefyd ar y drefn bresennol o golegau 6ed dosbarth, am eu bod hwy hefyd yn milwrio yn erbyn yr egwyddor cyfun, ac yn amddifadu'r ysgolion o ddisgyblion a fyddai'n gallu cynnig cyfraniad gwerthfawr i fywyd cymdeithasol ac addysgol yr ysgol.

3. Mae'n rhaid ehangu adnoddau ysgolion uwchradd, o safbwynt staff, deunydd, gofod a chyrsiau i ganiatáu cyrsiau cyfun ehangach fel rhan o'r cwricwlwm. Rhan annatod o'r cyrsiau ehangach hyn yw'r iaith Gymraeg a'r cyrsiau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhaid i'r cyrsiau fod yn berthnasol i anghenion y gymuned a'r ardal, gan ddarparu pobl i aros ac i weithio yn eu hardaloedd genedigol.

4. Dyma'r ddelfryd a dyma nod tymor hir Cymdeithas yr Iaith. Ond mae'n rhaid derbyn cyfyngiadau ac anawsterau'r sefyllfa bresennol ac yn y tymor byr dylid anelu at greu mwy o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Colegau Addysg presennol, a dylid eu gwneud yn berthnasol i anghenion y gymdeithas leol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r sector addysg uwch ddechrau darparu darlithwyr ac athrawon i ddysgu'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

ADDYSG UWCH GYFUN.

1. Cred Cymdeithas yr Iaith y dylai'r egwyddor cyfun estyn i faes addysg uwch (wrth hyn yr ydym yn golygu colegau Hyfforddi Athrawon, Colegau Politechnig, Colegau Technegol a'r Brifysgol).

2. Dylai fod gan bawb, yn ddi-wahân ac heb eithriad rhyw nac oedran, gael y cyfle i ymgymryd â'r addysg hon.

3. Dylai'r addysg uwch hon fod ar gael yn rhad ac am ddim i bawb trwy sistem o rantiau lleol a godir trwy'r sistem drethi leol, a thrwy rantiau gan y llywodraeth ganolog, fel rhan o'r gyllideb ar addysg.

4. Dylai'r addysg uwch hon fod yn Gymreig ei sylfaen a Chymraeg

ei chyfrwng, ac i'r perwyl hwn dylid fod yn dechrau darparu athrawon, hyfforddwy'r a darlithwyr ar gyfer gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg nawr, a dylid dechrau ad-drefnu sylfaen a chynnwys y cyrsiau eu hunain.

5. Y tu mewn i'r Brifysgol, dylid sefydlu dau goleg cyfun a fydd yn dysgu cyrsiau yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg'. Dylai'r cyrsiau hyn fod yn Gymreig eu naws ac yn berthnasol i anghenion Cymru a'n cymdeithasau lleol.

6. Dylai'r Colegau Addysg Uwch hyn ddarparu cyrsiau rhan amser i rieni sy'n gofalu am blant, i'r anabl, i'r di-waith ac i weithwyr, fel bod modd i bawb sydd yn dymuno cyfranogi o'r sustem addysg.

7. Os gweithredir y sustem yn lawn, dylid dileu'r Brifysgol Agored bresennol.

8. Eithriadau Arbenigol.

Er yn glynu at yr egwyddor o addysg gyfun drwy'r sustem i gyd, rhaid cydnabod bod rhai colegau'n darparu gweithwyr ar gyfer galwedigaethau arbenigol iawn, e.e. Coleg Meddygol, Coleg Llyfrgellwyr, Coleg Amaeth, a dylid parch-u'r arbenigrwydd hwn trwy ganiatáu parhad i'w statws a'u haddysg hwy, ond dylai'r colegau hyn fod yn agored i bawb sydd a'r gallu i'w mynychu, heb gyfyngiad ariannol, hil na rhyw.

9). Fe ddylai'r holl sustem o addysg uwch gyfun gael ei rheoli gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Golyga hyn ddileu'r gwahaniaethu ffug ac elitaidd sydd yn bodoli ar hyn o bryd rhwng y Brifysgol a Choleg- au Addysg Bellach, Politechnig ac yn y blaen, gan greu sustem o addysg uwch a fydd yn atebol i anghenion a dymuniad y gymdeithas leol.

10). Swyddogaeth yr Addysg.

Rhydd yr ail-wampio sefydliadol hyn gyfle i ailystyried yn sylfaenol holl swyddogaeth addysg uwch a natur yr addysg. Credwn fod y sefydliadau addysg uwch presennol i gyd yn llawer rhy fewnblyg ac yn tueddu i fod

yn ynysoedd ar wahan i fywyd y gymdeithas leol. Dylai'r sefydliadau addysg uwch cyfun dderbyn fod gwasanaethau'r rhanbarth y'u lleolir ynnddi yn swyddogaeth yr un mor bwysig a darparu cyrsiau ar gyfer eu myfyrwyr mewnol. Er mwyn sylweddoli hyn:

a). Dylid seilio llawer o feysydd gwaith ac ymchwil adrannau fel daearyddiaeth, economeg, cymdeithaseg, hanes, etc., ar astudio bywyd yn y rhanbarth, gan gydweithio gyda chynghorau lleol wrth ffurfio polisïau a chyd a llyfrgelloedd wrth ledu gwybodaeth i'r cyhoedd.

b). Dylid rhoi pwyslais mawr ar gyrsiau allanol - mewn canolfannau trwy'r rhanbarth a chan ddefnyddio adeiladau a chyfarpar y sefydliad ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau.

Trwy ailwampio'r sustem addysg yn y dull hwn, cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg bod modd creu sustem addysg sydd nid yn unig yn Gymraeg ei hiaith ac yn Gymreig ei sylfaen, ond sydd hefyd yn gymdeithasol deg yn ei hanfod.

Cyfrwngau Torfol

Mae'r frwydr dros fwy o Gymraeg ar, ac yn y pen draw, rheolaeth Gymreig dros, y cyfrwngau torfol yn un sydd wedi nodweddu hanes Cymdeithas yr Iaith yn y '70au. Yn yr ymgyrch hon, yn fwy na'r ymgyrch arwyddion hyd yn oed, fe welwyd y Gymdeithas yn tyfu'n rym gwleidyddol effeithiol gyda chymaint o gefnogaeth a dylanwad nes gorfodi llywodraeth ganolog i ildio ar fater o bolisi.

Mae llwyddiant polisïau ac ymgyrch- oedd y Gymdeithas yn maes y cyfrwngau i'w gweld yn glir wrth ystyried hanes sefydlu Radio Cymru, yn y cynnydd mewn oriau Cymraeg ar y teledu (yn enwedig gyda rhaglenni plant), ac yn y frwydr dros Sianel Gymraeg.

Oherwydd natur a dylanwad radio a theledu ar ein bywydau beunyddiol, naturiol ddigon oedd i'r Gymdeithas ganolbwyntio ar y ddwy agwedd hon o'r cyfrwngau, a threuliyd dros ddeuddeg mlynedd yn trafod, hyrwyddo polisïau, llunio a chyfeirio barn, ymgyrchu'n dorfol, gweithredu'n uniongyrchol, trefnu ymgyrch anafudd- dod sifil, . a meithrin gwrthdaro a llywodraeth ganolog hyd nes creu sefyllfa lle nad oedd dewis gan y llywodraeth ond ildio i ddymuniad y Cymry.

Serch hynny, dim ond dwy ran fach o bolisi darlledu'r Gymdeithas a wireddwyd wrth sefydlu Radio Cymru a Sianel Pedwar Cymru. Mae prif gorff y polisi hwnnw'n dal heb ei ennill, ac i'r pwyntiau hyn y bydd y Gymdeithas yn rhoi ei sylw yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal 8 hyn, mae datblygiadau mawr ar y gweill o safbwynt datblygu teledu lloeren, pibell, "optic fibre", ac yn natblygiadau radio lleol. Felly, fe geir adran yn ymwneud a'r datblygiadau hyn yn ogystal a phapurau newydd (cenedlaethol a lleol), papurau bro, hysbysebion a ffilmiau.

POLISI.

(a) SIANEL DELEDU GYFLAWN O RAGLENNI CYMRAEG I CYMRU (Polisi ers 1968).

Nid yw'r sefyllfa hon yn bodoli ar hyn o bryd, ac ni fydd S4C yn datblygu i fod yn sianel o'r fath onibai i ni barhau i bwysio am gynnydd yn yr oriau Cymraeg a ddarlledir arni. Ar y dechrau fe fydd S4C yn darlledu tua 22 awr o raglenni Cymraeg, er i Gymdeithas yr Iaith ofyn am leiaf- swm cychwynnol o 25 awr. Mae S4C ei hun yn rhagweld cynnydd o 1fc awr yn y Gymraeg dros gyfnod o 3 blynedd. Ar gyfartaledd o'r fath, fe fydd yn ddiwedd y ganrif nesaf cyn cael sianel gyflawn Gymraeg.

(b) SIANEL DELEDU O RAGLENNI SAESNEG AM GYMRU.

Nid oes unrhyw ymgais i sefydlu sianel o'r fath ar hyn o bryd.

(c) CYLLID DIGONOL I REDEG Y SIANEL YN LLWYDDIANNUS.

Dylai'r cyllid am raglen Gymraeg fod yr un S rhaglen gyfatebol Saesneg - rhaglen yw rhaglen ym mha

bynag iaith y'i gwneir. Nid yw'r cyllid ar gyfer rhaglenni BBC 2 na Radio 3 yn llai, er bod eu cynulleidfaoedd yn llai. Hefyd, o greu gwaith o safon da, mae mwy o siawns ei werthu i wasanaethau teledu eraill. Dylai fod cyllid ar gael i ehangu i feysydd nad ydynt wedi cael eu cyffwrdd yn Gymraeg, fel ffilmiau safonol, gwasanaeth addysg arbenigol i ysgolion a phrifysgolion, rhaglenni gwyddonol a dogfennol a rhaglenni chwaraeon byw.

(Ch) AWDURDOD DARLLEDU CYMREIG.

Dylai fod gan yr Awdurdod y grymoedd canlynol:-

(i) i sicrhau safonau'r rhaglen ni, amrywiaeth yn yr amserlen, ac ehangu'r gwasanaeth.

(ii) i bwysio am arian i'r gwasanaeth .

(iii) i sicrhau arian a statws i gynhyrchwyr annibynnol.

(iv) i arolygu penodiadau.

(v) i arolygu ac archwiliogwaith, ac i drafod gwaith gyda swyddogion y corfforaethau darlledu a gwneuthurwyr rhaglenni.

(vi) i benderfynu ar natur, trefn ac amser y rhaglenni ar y 4edd sianel.

(vii) i sefydlu is-bwyllgorau, yn arbennig pwyllgor ymgynghorol gyda chynrychiolwyr o bob agwedd o fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

(viii) yn y pen draw, dylai gwasanaeth Radio Cymru gael ei reoli gan yr Awdurdod.

(ix) i fod â gofal dros ddarlledu yn ei gyfanwaith yng Nghymru.

d) ADEILADU/ADDASU TROSGLWYDDYDDION

Mae'r adran hon yn arbennig o bwysig wrth ystyried y bydd rhyw 26 o ardal oedd yn methu \$ derbyn S4C (ac felly heb yr un raglen Cymraeg) ym mis Tachwedd, 1982.

Dyletswydd yr Awdurdod Darlledu Annibynnol yw sicrhau nad oes dim un ardal yn cael ei hamddifadu o'r gwasanaeth Cymraeg erbyn iddo ddechrau darlledu.

dd) CYFANSWM ORIAU CYMRAEG AC
AMSERLEN DDATBLYGU.

Polisi Cymdeithas yr Iaith Gymraeg erioed yw mai 25 awr yr wythnos o Gymraeg ddylid ei ddarlledu fel man cychwyn. Dylai'r Awdurdod Darlledu Cymreig sicrhau mai dyna a ddarlledir, a bod digon o arian ar gael i dalu amdanynt.

Dylai'r Awdurdod Darlledu Cymreig sicrhau bod ehangu blynyddol, ond ni ddylid ymestyn y rhaglenni presennol yn unig er mwyn cyrraedd rhyw rif penodedig o oriau. Rhaid sicrhau bod arian ar gael i dalu am raglenni ychwanegol.

Gwrthodwn yn llwyr syniad S4C o gynydd o 1¼ awr dros dair blynedd o ddarlledu, am ei fod yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr.

Yr Awdurdod Darlledu Cymreig ddylai arolygu cynlluniau'r corff-oraethau darlledu ar gyfer cynyddu'r oriau y maent yn eu cynhyrchu. Rhaid hefyd meithrin doniau newydd er mwyn osgoi ail-adrodd a dynwared, a manteisio'n llawn ar ein colegau drama, gan gynnig cyrsiau hyfforddiant newydd i actorion, ysgrifenywyr ac ati.

Dylai'r Awdurdod hefyd sicrhau cynnydd yng nghyfanswm o oriau'r cynhyrchwyr annibynnol, er mwyn torri o rigol y ddwy gorfforaeth. Brydeinig yn 'paco' ei gilydd.

(a) CYNLLUNIAU HYFFORDDI.

Rhaid cael cynlluniau llawer gwell nag sy'n bod ar hyn o bryd, trwy:

- (i) feithrin gwell cysylltiad rhwng y cyfundrefnau darlledu a'r colegau, a sicrhau tyfu a noddi cyrsiau technegol ac ati.
- (ii) fod yr Awdurdod Darlledu Cymreig yn cadw goruchwyliaeth dros y sefyllfa, ac yn sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynlluniau hyfforddi newydd;
- (iii) chwilio'n ddyfal am ddawn newydd, e.e. trwy gynnig comisiynau i ysgrifenywyr.
- (iv) sicrhau cynhyrchwyr galluog.

Nodwn yr anawsterau a geir gan ddiffyg technegwyr, etc., sy'n medru'r Gymraeg, a'r angen am

gyfieithu ac ail-adrodd cyfarwyddiadau ysgrifenedig a llafar. Rhaid sicrhau mwy o hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg i osgoi'r sefyllfa hon.

(f) DATGANOLI'R GWASANAETH.

Er mwyn datblygiad y gwasanaeth Gymraeg, awgrymn bod stiwdios yn cael eu hadeiladu mewn gwahanol rannau o Gymru, fel y gellir cael cyfraniadau lleol i'r gwasanaeth, gan ddefnyddio cyllid ar wahân i'r cyllid rhaglenni. Mae'n bwysig bod stiwdios ar gael yn agos at gynulleidfaeod mwyaf y gwasanaeth.

(ff) CYNHYRCHWYR ANNIBYNNOL.

Gallai cynhyrchwyr annibynnol yn hawdd arbenigo, e.e. mewn rhaglenni lleol neu raglenni gwyddonol.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Darlledu Cymreig sicrhau pedwar peth:

- (i) Adnoddau ariannol a thechnegol i gynhyrchwyr annibynnol, a sicrhau y telir am eu rhaglenni ar yr un raddfa a rhaglenni'r corfforaethau.
- (ii) Nad oes ail-adrodd neu ail-gynhyrchu gwaith - e.e., trwy gynnig cytundeb am amser penodol yr wythnos.
- (iii) Hybu ac annog sefydlu cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn rhanbarthol.
- (iv) Sicrhau yn raddol bod yna leihau yn nifer y di-Gymraeg sydd yn cynhyrchu/cyfarwyddo/ gweithio ar raglenni Cymraeg hyd nes dileu'r tueddiad yn llwyr.

Dylai'r cynhyrchwyr annibynnol fod yn atebol i'r Awdurdod Darlledu Cymreig.

(g) Y GYNULLEIDFA.

Nodwn bwysigrwydd ennill a chadw cynulleidfa trwy gydweithrediad mudiadau a sefydliadau, trwy gynnig gwasanaeth amrywiol a safonol, a thrwy sicrhau fod PAWB yn gallu derbyn y sianel newydd pan ddaw.

Am y gynulleidfa botensial, nodwn fod 38% o deuluoedd neu unedau byw Cymru ag un person o leiaf ynddynt sy'n deall Cymraeg; (cyfrifiad 1971), nad yw'r bobl sy'n deall Cymraeg yn hytrach na'i siarad

wedi'u cynnwys yn y Cyfrifiad; bod nifer fawr o bobl yn dysgu Cymraeg. Felly mae'r amcangyfrif o'r gynulleidfa botensial o gwmpas y miliwn.

Mae'n rhaid cael gwasanaeth teledu Cymraeg hyd yn oed os mai lleiafrif yng Nghymru yw ei gynulleidfa. Ond o ddena a chadw mwyaf y gynulleidfa botensial, byddai nifer y gwylwyr yn barchus iawn.

(ng) PERTHYNAS Â RADIO CYMRU.

Dyma beth a ddylai dyfu'n naturiol, ond fe ddylid cynnal trafodaethau ar hysbysebu; amserlen; ehangu oriau a datblygu'r gwasanaeth gan geisio osgoi gwrthdaro; a chydweithio ynglŷn â chael defnydd newyddion rhyngwladol.

(h) DEFNYDD TRAMOR.

Mae'n bwysig bod elfen ryngwladol annibynnol i'r gwasanaeth Cymraeg, er mwyn iddo fod yn gyflawn. Mae hyn yn cynnwys defnydd newyddion a rhaglenni.

Ar gyfer newyddion, awgrymn:

(i) yn ddefnyddol, uned newyddion gyfansawdd, yn gyfuniad o adrannau newyddion BBC Cymru a HTV Cymru, fel adran annibynnol o dan Awdurdod Darlledu Cymreig, er mwyn osgoi ail-adrodd a dyblygu, a chynnig y gwasanaeth newyddion gorau posibl.

(ii) trafod gyda'r undebau defnyddio technegau modern, yn enwedig electronig, o gasglu newyddion, a all fod yn arbennig o fanteisiol o ran cost, ac o ran cadw safonau'n uchel.

Ar gyfer rhaglenni, gellid:

(i) archebu deunydd o weddill Prydain trwy rwydweithiau'r BBC a theledu masnachol; gellid hefyd archebu deunydd o weddill y byd trwy'r rhain, a chysylltiadau sy'n bod eisoes.

(ii) archebu deunydd o Ewrop trwy Eurovision. At y perwyl hwn, byddai'n fanteisiol i'r Awdurdod Darlledu Cymreig ddod yn aelod o Eurovision.

Rhaid cael arolygiaeth dynn gan yr Awdurdod Darlledu Cymreig ar y deunydd a wneir o raglenni tramor - faint ddarlledir, o ba fath, eu bod yn boblogaidd ac o safon uchel, a bod cydbwysedd yn nharddiad y

deunydd.

1. HYSBYSEBU A CHROES-HYSBYSEBU.

O safbwynt hysbysebu ar y sianel newydd, dylid anelu at:

- (i) ceisio sicrhau hysbysebion yn yr iaith Gymraeg.
- (ii) hysbysebu deunydd a wnaed yng Nghymru.
- (iii) cydweithio â'r gwasanaethau cyhoeddus, cynghorau a'r Byrddau Datblygu i sicrhau hysbysebion sy'n gydnaws ag anghenion a dyheadau Cymru.

I'r perwyl hwn, dylai fod hawl gan yr Awdurdod Darlledu Cymreig i gomisiynu a chyfarwyddo hysbysebion o'r fath gan y cwmni teledu masnachol.

O safbwynt croes-hysbysebu, nodwn:

Y gwasanaeth cyflwyno fydd, i raddau helaeth, yn creu cymeriad y gwasanaeth Cymraeg, a dylai fod yn uniongyrchol o dan reolaeth yr Awdurdod Darlledu Cymreig.

Gellid hysbysebu rhaglenni Cymraeg y 4edd Sianel ar BBC1 a ITV 1 Cymru, a gellid hefyd hysbysebu rhaglenni'r dair sianel arall a allai fod o ddi-ddordeb i wylwyr y gwasanaeth Cymraeg, e.e. rhaglenni Saesneg o Gymru, ar y 4edd sianel. Ond rhaid sicrhau bod y croes-hysbysebu yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid hefyd sicrhau croes-hysbysebu ar Radio Cymru a Radio Wales.

Credwn y dylai'r Awdurdod Darlledu Cymreig ymchwilio i ddulliau o hysbysebu rhaglenni Sianel Pedwar Cymru mewn cylchgrawn yn ymwneud yn arbennig â'r sianel newydd yn hytrach na'u cyhoeddi fel atodiad i un o gylchgronau Saesneg presennol y Corfforaethau Darlledu, gan orfodi pobl Cymru felly i brynu'r cylchgronau hyn.

(1) RHAGLENNI SAESNEG O GYMRU.

Bu sianel deledu i Gymru yn yr iaith Saesneg yn rhan o bolisi cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg erioed, gan ei bod yn allweddol i greu ymhlith y di-Gymraeg ymdeimlad o berthyn i Gymru ac i gymdeithas Gymreig cyn y gwelant bwrpas mewn dysgu'r iaith. Nodwn y pwyntiau canlynol:

- (i) y dylai fod darpariaeth

arbennig i'r Cymry di-Gymraeg sy'n deilwng ohonynt.

- (ii) y Cymry di-Gymraeg a ddylai ddewis y math o raglenni a gwasanaeth y bydd arnynt eu heisiau, gan gadw safon uchel o ddarpariaeth.
- (iii) hyd nes y penderfynir ai mwy o raglenni o Gaerdydd ar y sianelau presennol sydd eisïau, ai sianel arbennig yn lle un o'r sianelau Prydeinig, neu'n ychwanegol atynt, - dylid llenwi rhai o'r bylchau a adewir pan symudir y rhaglenni Cymraeg gan raglenni Saesneg o Gymru.

(II) RHAGLENNI I DDYSGWYR CYMRAEG.

Ni ddylid cyfrif y rhain yn rhan o'r oriau Cymraeg. Eu lie priodol yw ar y sianelau eraill, gan fod rhaglen dysgwyr o'i hanfod yn ddarpariaeth ar gyfev y di-Gymraeg.

Mae angen darpariaeth lawer d.awn gwell na sydd ar hyn o bryd l ddysgwyr, o raglenni lliwgar a deallus ar gyfer oedolion a phlant sy'n dysgu'r Gymraeg. Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn un dda, gan gofio'r nifer cynyddol o bobl sydd wrthi'n dysgu'r iaith, ac wrth gofio mai pobl yn ei dysgu yw un o'r ffactorau pwysig wrth geisio sicrhau dyfodol i'r iaith,

(m) PWYLLGOR POLISI.

Mae trosglwyddo barn ar, a syniadau am, raglenni yn mynd i fod yn un o'r ffactorau pwysig yn llwyddiant y sianel. Rhaid adeiladu'r egwyddor i mewn l adeiladwaith yr Awdurdod Darlledu Cymreig, gan sicrhau fod yr Awdurdod yn cynrychioli pobl Cymru yn hytrach na chael ei drefnu gan ddsbarth rheolus cyfyngedig,

"sy'n gwybod beth mae ar y gwylwyr ei eisïau", ac yn defnyddio cyfrifon barn i brofi effeithiolrwydd eu cyflyru yn hytrach nac i hybu trafodaeth ymhlith pobl ein gwlad.

Argymhellwn sefydlu Pwyllgor Polisi grymus yn ganolog i holl waith yr Awdurdod. Byddai'r swyddogion yn gyfrifol i'r pwyllgor hwn am eu gwaith beunyddiol, a'r pwyllgor hwn, yn hytrach na'r swyddogion, a fyddai'n gyfrifol am benderfyniadau polisi. (Fel hyn, byddai'r pwyllgor

yn wahanol iawn i gyrff ymgynghorol fel Cyngor Darlledu'r BBC).

Yn ogystal a swyddogion yr Awdurdod yn ex-officio', aelodau'r pwyllgor fyddai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru a fyddai yn eu tro yn adrodd yn ol i bwyllgorau polisi eu hawdurdod er mwyn hybu trafodaeth eang ar ddarlledu.

Byddai angen cyfarfodydd rheolaidd a chyllid digonol i sicrhau effeithiolrwydd y pwyllgor.

Byddwn fel Cymdeithas hefyd yn mynd ati i sefydlu pwyllgorau gwirfoddol o wylwyr a gwrandawyr ar lefel ranbarthol i feirniadu rhaglenni.

(n) TELEDU PIBELL/GWIFREN/LLOEREN.

Mae datblygiad technegol ym myd teledu yn ystod yr ugain mlynedd nesaf yn rhy astrus ac eang i allu ymdrin ag o yn fanwl yma. Dichon nodi ychydig o sylfeini polisi ar gyfer datblygiadau o'r fath. Credwn:

- (i) y dylid sicrhau hunaniaeth Sianel Pedwar Cymru, a darlledu yn gyffredinol yng Nghymru, beth bynnag yw'r newidiadau.
- (ii) wrth i'r datblygiadau rydd-hau rhagor o sianelau i ddarlledu arnynt, dylid datblygu Sianel Pedwar Cymru i fod yn sianel Gymraeg lawn.
- (iii) wrth i ragor o sianelau gael eu creu, dylid eu datblygu ar gyfer anghenion arbennig Cymru, e.e. teledu cymdeithasol, addysgol, teledu lleol ac ati, yn hytrach na'u defnyddio at ddibenion masnachol Prydeinig, rhyngwladol, Ewropeaidd.

RADIO - CENEDLAETHOL A LLEOL.

POLISI - CENEDLAETHOL.

- 1 Tonfedd Radio Genedlaethol Gymraeg i Gymru.
- 2 Tonfedd Radio Genedlaethol Saesneg i Gymru.

Nid yw'r naill wasanaeth na'r llall yn bodoli'n llawn eto, er bod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu'r dda. Galwn felly am:

(i) gynydd yn yr oriau Cymraeg a ddarllidir ar Radio Cymru hyd nes y gwneir y donfedd yn un wir Gymraeg.

(ii) gynydd yn yr oriau Saesneg o Gymru a ddarllidir ar Radio Wales hyd nes y gwneir y donfedd yn un wir Gymreig.

(iii) Symud y ddwy donfedd i fod o dan reolaeth uniongyrchol yr Awdurdod Darlledu Cymreig.

RADIO LLEOL.

1. RADIO LLEOL YR I.B.A.

Nid yw'r I.B.A. yn gwahaniaethu rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr o safbwynt anghenion darlledu. Mae hwn felly yn anfantais amlwg i'r iaith Gymraeg. Nid yw'r I.B.A. chwaith yn gosod unrhyw isafswm o safbwynt canran oriau Cymraeg mewn cytundebau radio masnachol. Argymhellwn felly bennu'r oriau Cymraeg yn ôl y canran o siaradwyr Cymraeg yn nalgylch swyddogol ac answyddogol gorsaf radio.

2. RADIO LLEOL B.B.C.

Nodwn fwriad y B.B.C. i gael "opt-outs" lleol yn Saesneg o Radio Wales am ryw ddwyawr y dydd. Galwn am "Opt-outs" lleol Cymraeg o Radio Cymru, fel y datblygiad mwyaf naturiol o'r arbrawf Radio Bro, a hynny cyn unrhyw "opt-outs" Saesneg o Radio Wales.

3. AWDURDOD DARLLEDU CYMREIG.

Galwn am ychwanegu gofal am, a rheolaeth dros, ddarlledu Radio yng Nghymru at gyfrifoldebau'r Awdurdod Darlledu Cymreig, ac yn ychwanegol at hyn, galwn ar yr Awdurdod i ystyried cynlluniau ar gyfer ailwampio system ddarlledu Radio Cymru'n llwyr a hynny ar raddfa ddi-gystadleuaeth.

4. CYNLLUNIAU AMSER-HIR (Radio Lleol)

Gellid gwella yn yr amser byr drefniadau radio lleol yng Nghymru fel yr ydym wedi amlinellu. Yn yr amser hir, fodd bynnag, mae angen i Awdurdod Cymreig unio trefn newydd o radio lleol a fydd yn gwir gynrychioli'r gymdeithas leol. Ni all canghennau o'r BBC canolog, nac yn sicr cwmniau radio preifat, gyflawni'r swyddogaeth hon. Wrth fod cytundebau preifat yn dod i

ben, dylid anelu at greu un sistem unol newydd o radio lleol gyda Bwrdd Rheoli yn cynrychioli'r gymdeithas leol i drefnu radio lleol yn yr ardal. Bydd rhai aelodau o'r Awdurdod Cymreig yn aelodau ex officio o'r byrddau hyn, ond byddai'r grym penderfynu polisi gyda chynrychiolwyr y gymdeithas leol. Y byrddau eu hunain fyddai'n penderfynu ar fater denu incwm ychwanegol trwy hysbysebion. Ni ddylid cynnig unrhyw gytundebau newydd i gwmniau am radio masnachol yng Nghymru yn y cyfamser.

CYFRYNGAU TORFOL ERAILL.

Mae maes y "cyfryngau torfol" mor eang nes ei bod yn amhosibl ymdrin a phob agwedd ohono'n fanwl mewn manifestto o'r math hwn. Yr ydym wedi ymdrin a theledu a radio - prif feysydd ymgyrchu'r Gymdeithas yn ystod y '70au, ond y mae'r cyfryngau hefyd yn cynnwys papurau cenedlaethol a lleol, papurau bro, cylchgronau, hysbysebion, ffilmiau a llyfrau.

Wrth ystyried sefyllfa o'r fath, yr unig beth y gellid ei wneud yw cynnig canllawiau cyffredinol ar gyfer y cyfryngau hyn, gan ymhel-aethu mewn dogfennau polisi pan fo'r angen yn codi. Galwn felly yn gyffredinol am y canlynol:

- (i) Sefydlu awdurdod Cymreig canolog i geisio democrat-eiddio'r cyfryngau. Byddai hawl gan yr awdurdod i wneud arolygon o'r cyfryngau i sicrhau eu bod yn rhoi cyfle i bob barn ac i orchpymn fod y cyfryngau'n rhoi'r hawl i ateb. Byddai'n ymchwilio i gwynion gyda'r gallu i orchymyn i unrhyw bapur gyhoeddi canlyniad unrhyw ymchwiliad.
- (ii) Fod nawdd ariannol o goffrau cyhoeddus tuag at hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn papurau, e.e., cefnogi papurau lleol Cymraeg, annog adrannau Cymraeg mewn papurau torfol etc.
- (iii) Fod ymgais cyson i lenwi bylchau mewn cyhoeddi Cymraeg - e.e. yr angen amlwg am bapur dyddiol Cymraeg.

- (iv) Fod cyd-gysylltu ymdrechion i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffilmiau a chasetiau fideo, e.e. trwy gyfraniad Awdurdod Darlledu Cymreig, llyfrgelloedd cyhoeddus, adrannau o'r Brifysgol, etc. Yn sefyllfa drefedigaethol gwlad fach fel Cymru, ni ellir dibynnu ar arweiniad gan gyfalaf preifat. Rhaid cyd-gysylltu ymdrechion gan gyrff cyhoeddus.

Tai

RHAGYMDRODD.

Dengys gweithgarwch y Gymdeithas ym maes tai y modd y bu'n rhaid i'n hymgyrchoedd fynd fwyfwy i'r afael a meysydd cymhleth, aml-ochrog a lled arbenigol dros y degawd diwethaf. Bellach, mae gennym bolisiau cyflawn, aeddfed a thrwyadl eu hymchwil yn brif gonglfeini i'n hymgyrchu ymarferol yn y maes hwn.

Maes dadleuol iawn ydyw hefyd, a gweithgarwch y Gymdeithas ynddo'n ennyn ymateb chwyrn iawn erioed. Yn wir, po fwyaf y canolbwyntiwn ar y maes hwn, mwyaf i gyd o lid gwirioneddol y byddwn yn ei ennyn yn ein herbyn, oherwydd a dosbarthiad eiddo preifat y mae a wnelo'r ymgyrch ddyrys hon yn y bôn, a go brin fod yna duedd amlycach gan gyfreithiau Lloegr na'r duedd i goleddu "hawliau" eiddo preifat. (Cofier mai prif amcan y gyfraith yn wreiddiol oedd diogelu ac amddiffyn eiddo preifat a buddiannau tir-feddianwyr). Buan iawn y gwelwyd wrth weithio ym maes tai - boed ar raddfa genedlaethol ynteu ar raddfa leol yn unig - mor rymus yw'r traddodiad cyfalafol Prydeinig sy'n rhwymo Cymru'n ofnadwy o gadarn wrth y status quo. Parhad y drefn honno sy'n prysuro tranc iaith a chymuned, a chredwn fod rhaid newid y drefn honno os yw'r iaith i barhau a ffynnu.

Nid ydym mor ddiniwed â chredu bod Cymdeithas yr Iaith, na'r un garfan arall o garedigion yr iaith, yn ddigon dylanwadol a grymus i fedru plygu'r drefn wleidyddol a chymdeithasol sydd ohoni yn 81 gofynion yr iaith Gymraeg ac amodau ei pharhad.

Dyna pam y mae ffrwyth gwaith y Gymdeithas yn y maes yn ein harwain yn naturiol at syniadaeth sosialaeth, a'u gwneud felly yn fwy eglur a pherthnasol i bobl gyffredinol na llawer o'n hymgyrchoedd yn y gorffennol.

Nid ymrwymiad mympwyol nac annelwig o haniaethol mo'n hymrwymiad at y syniadaeth sosialaidd hon, ond ymrwymiad aeddfed a chadarn a ddeillia o brofiad maith y Gymdeithas o ymgyrchu'n ymarferol dros drefn newydd o gydraddoldeb cymdeithasol yn nosbarthiad tai annedd i frodorion ein hardaloedd Cymraeg.

PRIF SYLWADAU.

Wrth drafod y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mi ddywedwn yn aml iawn fod "yr iaith yn colli ei thir", a dyma'n union sy'n digwydd - yn llythrennol felly - sef bod yr iaith Gymraeg yn colli ei thir, colli ei gafael ar gymdogaeth a chymuned a cholli aelwydydd. O ganlyniad, y mae maint yr ardaloedd Cymraeg yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn - nid yn unig am fod ffiniau ieithyddol y cyfryw ardaloedd yn newid o hyd ac o hyd ac yn cyfyngu fwyfwy ar erwau'r Gymraeg o'r tu allan, ond am fod y teneuo ar gerdded oddi mewn i'r ardaloedd hyn hefyd, ac yn graddol ddisodli'r iaith o* i chadarnleoedd traddodiadol, hyd yn oed.

Arwyddion sicr o dranc disgwylidig y Gymraeg yw'r nodweddion hyn, oherwydd fe gred ieithyddion na all iaith barhau yn iaith lafar fyw heb feddu ar ei phriod diriogaeth ei hun, a heb fod yna ryw faint o undod daearyddol i'r diriogaeth honno.

Yn y cyswllt hwn, mae polisiau'r Gymdeithas ym maes tai yn brif elfen mewn maes llafur ehangach o dipyn, sef yr ymgyrch amlochrog a chynhwysfawr i sicrhau y bydd dyfodol yr iaith yn flaenoriaeth a chynhwysfawr i sicrhau y bydd dyfodol yr iaith yn flaenoriaeth o'r pwys mwyaf ym maes cynllunio lleol a pholisiau cymdeithasol awdurdodau lleol - ymgyrch a weinyddir gan y Grŵp Cynllunio Cymdeithasol/Ieithyddol y Gymdeithas. Yn y bôn, ymgyrch ydyw dros ddulliau o reoli pob cynnydd a gostyngiad yn y boblogaeth -

yn ogystal â dosbarthiad y boblogaeth - mewn modd a fydd (a) yn atal trai yr iaith; (b) yn cadw a chadarnhau yr iaith yn ei chynefin ac (c) yn y pen draw, ad-ennill y tir a golwyd, ac ychwnaegu tir newydd ato.

Wrth reswm, felly, mi fydd dosbarthiad tai annedd - a'r berchnogaeth arnynt - yn gwbl allweddol i'r rheolaeth honno, a dyna pam y mae'r maes hwn yn deillwng o sylw arbenigol o fewn cwmmpas ehangach ein hymgyrchoedd dros gynllunio cymdeithasol/ieithyddol mwy goleuedig a chyfrifol nag a geir ar hyn o bryd.

Yn naturiol ddigon, mae polisïau ysgrifenedig y Gymdeithas ar dai wedi canolbwyntio ar yr ardaloedd Cymraeg a lled Gymraeg yn unig, oherwydd cyn ehangu ein maes llafulur i'r ardaloedd di-Gymraeg, rhaid i ni geisio sicrhau y bydd gan yr iaith "ei phriod diriogaeth ei hun" - ei chadarnleoedd a fydd yn garreg sylfaen i'w dyfodol.

Credwn, fodd bynnag, fod yr un egwyddor o seilio polisi tai ar yr angen am gynnal y gymuned leol yr un mor berthnasol i ardaloedd llai Cymraeg, yn gymdeithasol ac o ran adfer yr iaith. Cymerwn enghraifft ardal Abergele lle bydd y boblogaeth wedi treblu rhwng 1961 a 1986 o ganlyniad uniongyrchol i ganiatáu gor-ddatblygu tai yn ôl buddiannau masnachol adeiladwyr preifat. Mae bron yn amhosibl adfer yr iaith mewn cyd-destun cymdeithasol felly, gan fod unrhyw waith da a wneir yn y gyfundrefn addysg yn cael ei thanseilio, ac y mae effaith andwyol hefyd ar yr ardal o gwmpas. Gwelwn yn hanfodol i adferiad y Gymraeg bolisi tai a fydd yn cyfrannu'n helaeth tuag at gymdeithas sefydlog sy'n tyfu'n naturiol oddi fewn.

Sut mae trefnu ymgyrch ymarferol felly ym maes tai? Wel, rhaid yn gyntaf oll fwrw golwg dros achosion a nodweddion y dirywiad yn gyffredinol, a phwyso a mesur wedyn sut orau y gallwn eu gwrth- sefyll a'u trechu trwy sicrhau gwell rheolaeth ar ddsbarthiad tai annedd.

Prif Elfennau'r Dirywiad.

(a) Esgeuluso tai dan berchenogaeth gyhoeddus.

Diffyg sail economaidd i'r gymdeithas leol → Diweithdra → safonau byw isel lawn i haenau isaf y gymdeithas leol.



Diboblogi ar y naill law, ac ar y llaw arall, cyfyngu'r dosbarth gweithiol fwyfwy i dai yn yr adran gyhoeddus (sef tai o berchenogaeth gyhoeddus), a thair drwg eu cyflwr, rhad eu rhenti, etc.

OND - er bod yna alw cynyddol am dai yn yr adran gyhoeddus, a thair a osodir ar rent i denantiaid, lleihau yn gyson y mae'r nifer o dai felly a fydd ar gael i denantiaid lleol, oherwydd

- i) mae awdurdodau lleol yn gwerthu tai cyngor i denantiaid gan gwtogi'n enbyd ar y nifer o dai cyngor y gellir eu gosod i ymgeiswyr ar y rhestri aros;
- ii) ychydig iawn o dai cyngor newydd a godir bellach;
- iii) mae twristiaeth yn chwyddo'r rhenti a godir am dai a fflatiau, etc., fel eu bod y tu allan i gyrraedd llawer o deuluoedd lleol;
- iv) mae llawer o dai a fflatiau, etc., a osodir i denantiaid lleol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac a osodir wedyn dros dymor yr haf i ymwelwyr, am renti drutach. (Mae anheddau o'r math hyn yn fwy addas i boblogaeth dros dro - e.e. myfyrwyr nag i deuluoedd lleol).

(b) Ehangu a chwyddo y farchnad breifat.

Ar hyd a lled y Gymru Gymraeg, adeiledir cannoedd ar gannoedd o dai preifat newydd nad oes yna ddim galw lleol amdanynt. O ganlyniad, mae yna ormodedd o dai preifat ar y farchnad leol.



ANNOG MEWNLIFIAD

Gan fod yna ormod o lawer o dai preifat yn yr ardaloedd Cymraeg eisoes, nid oes modd cyfiawnhau codi ychwaneg. Gan nad oes dim galw lleol am dai o'r fath, fe'u codir yn unswydd i ddenu mewnfudwyr. (I)



Gan fod prisiau tai newydd y tu hwnt i gyrraedd y trigolion lleol, maent yn sicr o ddenu mewnfudwyr o ddsbarth cymdeithasol mwy ariannol a hyderus na'r brodorion, neu fewnfudwyr nad yw'r argyfwng economaidd cyfoes yn mennu fawr ddim arnynt - e.e. pobl gefnog sydd wedi ymddeol; gweithwyr nad yw eu cyflogaeth yn ddibynnol ar ffynhonnell leol a bregus.



Llawer o Gymry lleol yn mynnu dewis tŷ newydd yn hytrach na hen dŷ. O ganlyniad, gadewir peth wmbredd o hen dai lleol yn ysglyfaeth i'r farchnad dai haf.

- (I) Er enghraifft, yn ôl Cynllun Lleol Ynys Môn, ni ddisgwylir fawr ddim cynnydd "naturiol" yn y boblogaeth dros yr ychydig flwyddoedd nesaf, ond mae yna ganiatâd cynllunio dilys a chyfredol i godi 1,800 o dai ychwanegol ar yr ynys hyd yn oed oni chaniateir dim un arall o hyn allan (h.y. oddi ar Wanwyn 1982). Rhwng 1971 a 1977, ymfudodd rhyw 12,000 o newydd-ddyfodiaid i fyw ar yr ynys, a rhyw 8,400 o'r rheiny o'r tu allan i Gymru. Disgwylir y bydd mwy na 75,000 o fewnfudwyr ychwanegol wedi symud i Fôn erbyn y flwyddyn 2011.

Y gwir plaen amdani yw nad oes modd yn y byd cymhathu cynifer o fewnfudwyr â'r diwylliant brodorol, ac felly erbyn troad y ganrif, mi fydd nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mon yn lleiafrif pitw iawn.

Wrth reswm, ni fydd mewnlifiad o'r fath yn bosibl o gwbl onibai fod yna ddigon o dai ym Môn i ymfudo iddynt.



CHWYDDO'R FARCHNAD DAI HAF/AIL DAI

Chwyddo prisiau tai fel eu bod ymhell y tu hwnt i gyrraedd pobl leol

Bwriad llawer o berchnogion tai haf yw ymddeol iddynt yn y pen draw. Yn ôl un arolwg, dyna oedd bwriad 59% o berchnogion tai haf yn Sir Gaernarfon, a 45% o berchnogion tai haf yn Sir Ddinbych. Darpar-fewnfudwyr, felly, yw perchnogion y tai haf i raddau go helaeth.



Mae tai haf/ail gartrefi yn amddifadu'r gymuned leol o gartrefi parhaol i bobl leol. Dengys Tabl I yr anghyfiawnder cymdeithasol enbyd a gyfyd yn sgil camddefnyddio tai annedd trwy eu troi'n dai haf.

Tabl I - Tal haf yn ôl dosbarth, a nifer yn aros am dal cyngor.

Dosbarth	Nifer tai haf	Nifer y teuluoedd ar y rhestrau aros
Aberconwy	1,000	922
Arfon	1,325	1,000
Brycheiniog	450	1,006
Caerfyrddin	1540	1,682
Ceredigion	2100	1140
Colwyn	1040	1270
Delyn	290	1221
Dinefwr	160	772
Owyfor	2634	500
Meirionydd	2850	643
Trefaldwyn	800	873
Preseli	900	1500
Rhuddlan	50	1050
De Penfro	2100	900
Ynys Mon	1650	1485

D.S. Diweddariad:

Ym Mehefin, 1982 fe gyhoeddodd Cyngor Sir Dyfed fod yna 7,760 o dai haf yn Nyfed, ac 8,000 o deuluoedd ar y rhestri aros am dai cyngor.

Amgylchiadau trychinebus yw'r rhain i gyd i'r iaith Gymraeg. Dangosant yn eglur mai di-Gymraeg, estron eu hgwedd fydd y mwyafrif llethol lawn o'r mewnfudwyr, ac ar y cyfan, mi fyddant o ddosbarth cymdeithasol uwch a mwy hyderus na brodorion ein hardaloedd Cymraeg. Bydd eu dylanwad yn drwm ar addysg leol, diwylliant lleol, cymdeithasau lleol a gwleidyddiaeth leol.

Ar y llaw arall, mae'n debyg mai Cymry. fydd y mwyafrif o'r rhai fydd yn gadael yr ardaloedd Cymraeg, a'r rheiny'n Gymry dosbarth gweithiol gan mwyaf, am mai'r diwydiannau cynhyrchu sy'n dirywio gyflymaf ar hyn o bryd. O ganlyniad, colli ei "gwerin" y mae'r Gymraeg, a bydd teyrngarwch iddi'n mynd yn fwyfwy cysylltiedig â'r dosbarth canol, diogel eu swyddi.

POLISIÂU CYMDEITHAS YR IAITH.

Un o'n prif ganllawiau syniadol wrth ymgyrchu yn y maes hwn yw'r rheidrwydd i wahaniaethu, fel y gwnaeth Dafydd Elis Thomas wrth annerch cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Gymdeithas ar faes Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn, 1981 rhwng:-

(a) tai annedd a fo'n gartrefi

(b) tai annedd nad ydynt ond nwyddau i'w marchnata ac ymelwa arnynt.

Ymgyrchwn dros drosolwyddo cymaint o dai ag a ellir o ddosbarth (b) i ddosbarth (a)

Gyda hynny mewn golwg, felly, fe geisiwn y canlynol:-

1. Sicrhau fod digon o dai annedd ar gael i boblogaeth frodorol yr ardaloedd Cymraeg, er mwyn atal allfudo ac er mwyn sicrhau parhâd pob cymuned Gymraeg; a hyn (yn wyneb diweithdra, cyflogau isel a lefel chwyddedig y farchnad breifat) drwy'r sector gyhoeddus yn bennaf.
2. Sicrhau na fydd tai haf yn peri diboblogi nac yn gwanychu cymunedau Cymraeg.
3. Cyfyngu ar y mewnlifiad enfawr o bobl ddi-Gymraeg sy'n Seisnigo cymunedau Cymraeg, drwy beidio ag ehangu'r stoc tai ar eu cyfer, ynghyd â diogelu cymaint ag sy'n bosibl o'r stoc tai presennol ar gyfer y brodorion.
4. Sicrhau fod polisiau cynllunio a datblygu yn cynnal ac yn cryfhau Cymreictod cymuned ac ardal.

Cydnabyddwn y gallai awdurdodau lleol Cymru sicrhau llwyddiant yr amcanion hyn petaent am eu harddel o ddifrif - trwy weithredu yn ô y gallu a'r awdurdod a feddant eisoes, yn ogystal â thrwy bwysu'n benderfynol ar y llywodraeth ganolog am newidiadau deddfwriaethol i'w galluogi i unioni'r sefyllfa sydd ohaoni.

Gan hynny, buom yn pwysu ar gynghorau dosbarth - trwy ohebu â nhw a chyfarfod â'u cynghorwyr a'u swyddogion - i dderbyn ac arddel y polisiau a gynnigir gennym yn ein dogfen Tai yn yr Ardaloedd Gwledig - Cyfrifoldebau Cynghorau Dosbarth. Fe gynhwysir yn Atodiad "A" i'r bennod hon gopi o Ofynion y Gymdeithas i'r Cynghorau Dosbarth - sef adran olaf y ddogfen.

CAMAU YMARFEROL.

Mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio'n egniol yn y maes hwn i newid holl sylfaen polisiau tai awdurdodau lleol Cymru trwy:-

- a) . Sicrhau fod hyn yn dod yn bwnc trafod brwd ym mhob cymuned leol, gan wneud defnydd llawn o'r cyfryngau lleol, ac yn meithrin cysylltiad agos gyda chynghorwyr lleol.
- b) . Ymchwilir yn fanwl i'r sefyllfa dai ym mhob ardal - yn cynnwys arolwg o'r stoc tai, effaith polisiau'r cyngor, y galw lleol am wahanol fathau ar gartrefi, ac ymyrraeth gan gwmnïau preifat sy'n aml yn ymelwa'n fras ar dai haf neu dai di-angen. Trefnir ymgyrch a rhaglen waith ym mhob cymuned leol, yn seiliedig ar yr ymchwil hwn.
- c) . Pwyswn ar lywodraeth ganolog am newidiadau angenrheidiol mewn deddfwriaeth, ac eglurhad mewn cyfarwyddiadau gweithredol i sicrhau fod yr awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'r polisiau a amlinellir yn yr atodiad.
- ch) . Cadwn yr hawl i ymyrryd trwy weithredu yn uniongyrchol yn erbyn tai haf a thai di-angen, yn erbyn cwmnïau sy'n gwaethygu'r sefyllfa ac yn erbyn awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn ymqvmyrd â'u cvfrifoldeb yn y maes.

ATODIAD "A

GOFYNION CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG I'R CYNGHORAU DOSBARTH.

8.1 Ym maes tai:

Mabwysiadu yn ddi-oed fel polisi swyddogol y canlynol, a phwyso ar y Swyddfa Gymreig ar ac y llywodraeth am yr hawl i brynu'n orfodol unrhyw dŷ gwag ac unrhyw dŷ haf (ail gartref/tŷ gwyliau) yr ystyria'r cyngor y byddai ei brynu er lles y gymuned a'r ardal: am bris a fydd yn cyfateb i werth y tŷ fel y'i amcenir gan y Prisiwr Rhanbarthol; ynghyd â digon o gyllid tai ychwanegol i brynu ac adnewyddu o leiaf y nifer o dai a fo angen er mwyn:

(a) ateb y galw am dai cyngor i bobl leol ym mhob
cylch (gan gynnig tai felly i bobl addas a fo ar
restrau aros pentrefi/ ardaloedd cyfagos):

(b) cadw pob un cymuned yn hyfyw, drwy sicrhau digon o
drigolion parhaol i gadw'r ysgol, llythyrdy, siop a
chwyfleusterau eraill;

(c) amddiffyn cymunedau rhag eu boddi a'u Seisnigo gan
berchnogion ail-gartrefi yn mudo yno'n barhaol (naill ai
i weithio neu i ymddeol);

(ch) sicrhau na bydd mwy na 5% o dai unrhyw gymuned yn
dai haf parhaol.

Dylid anelu yn y pen draw at brynu pob tŷ haf, gan osod cymaint ag sy'n bosibl ohonynt fel tai cyngor, neu eu gwerthu i bobl leol gydag amodau ynglŷn â'u hail-werthu a'u defnyddio (er mwyn eu hatal rhag mynd yn dai haf neu'n dai i fewnfudwyr), a gosod tai na ellir cael tenant neu berchennog lleol parhaol iddynt, fel tai gwyliau dros dro (Os bernir na fydd hynny yn peri unrhyw niwed i'r gymuned), a'r elw a ddaw o'u gosod i'w dalu i'r cyfrif tai. Yn y modd hwn fe ddefnyddid y cyfran sylweddol ohono yn gwneud elw i unigolion neu i gyrff masnachol.

8.2 Mabwysiadu yn ddi-oed fel polisi swyddogol a phwyso ar y Swyddfa Gymreig a'r llywodraeth amdano:ddiddymu'r "Gostyngiad Treth Ddomestig" i dai haf, gan dalu'r incwm ychwanegol o'r trethi hyn i Gyfrif Tai'r cyngor dosbarth (y swm yma i'w anwybyddu wrth gyfrif Grant Ategu Trethi'r cyngor).

Byddai hyn yn cyflawni dau ddiben; yn gyntaf, peri ei bod yn anos cynnal tŷ haf, a thrwy hynny ryddhau rhagor o dai i'r farchnad leol a gostwng prisiau ac yn ail, sicrhau y byddai perchnogion tai haf yn cyfrannu'n uniongyrchol i leddfu problemau tai'r ardal.

8.3 Mynd ati'n ddi-oed i brynu:

(a) unrhyw gyn-dy-cyngor a gynigir iddynt ar werth.

(b) unrhyw dŷ a ddaw ar y farchnad a fyddai o fudd i'r gymuned fel cartref, ac sy'n debyg o fynd yn dŷ haf neu'n gartref i fewnfudwr di-Gymraeg fel arall.

Yn hyn o beth, dylid herio'r Swyddfa Gymreig yn uniongyrchol parthed caniatâd i wario rhan o'r cyllid tai yn y modd hwn. Y mae'n holl bwysig fod y cyngorau dosbarth yn gwylio'r farchnad dai ac yn gwneud hynny a allant o fewn cyfyngderau'r farchnad i atal tai haf pellach ac i leihau'r mewnlifiad; a rhaid dangos yn eglur i'r Swyddfa Gymreig fod y cyngorau yn benderfynol o amddiffyn eu cymdeithas.

8.4 Gwrthod gwerthu unrhyw dŷ cyngor (Deddf Dai 1980).

Gweler Adran 5. Mae'r llywodraeth wedi arfer twyll yn hyn o beth - rhaid yw ei herio.

8.5 Ym maes cynllunio.

Mabwysiadu'n ddi-oed fel polisi swyddogol a phwyso ar y llywodraeth a'r Swyddfa Gymreig am yr hawl i: orfodi perchnogion presennol tai haf a darpar-berchnogion, i wneud cais cynllunio am newid defnydd o dŷ annedd i ail-gartref/tŷ gwyliau; a'r ceisiadau hyn i'w hystyried yng ngolau:

a) egwyddorion cynllunio cymdeithasol-
ieithyddol, a lles cymdeithasol a Chymreictod y
gymuned a'r ardal;

b) yr angen lleol am gartrefi (yn y sector breifat
a chyhoeddus);

c) sefyllfa'r perchennog/darpar-berchennog (e.e. a
oes ganddo gartref arall?)

Byddai hyn yn galluogi'r cyngor i reoli'r niwed a wneir gan dai haf ac, i raddau, i reoli lefel y farchnad dai leol.

(Awgrymwn fel diffiniad o "dŷ haf": "tŷ yr ydys yn byw ynddo am lai na 10 mis y flwyddyn NEU dŷ a'i drigolion (yn denantiaid neu'n berchnogion) yn newid yn gyfan gwbl o leiaf unwaith bob blwyddyn" - cofier fod rhai tai haf y preswylir ynddynt y tu allan i gyfnodau gwyliau gan fyfyrwyr, a rhai yr ydys yn taflu tenantiaid lleol allan ohonynt yn ystod yr haf.) i

8.6 Gwneud lles i gymunedau naturiol Cymraeg yn un o brif egwyddorion cynllunio; a mynd ati'n ddi-oed i adolygu pob cynllun fframwaith a chynllun ardal yn unol a hynny, gan wneud pa newidiadau bynnag a fo'n angenrheidiol er mwyn (a) gwrthwynebu a cheisio rhwystro'r mewnlifiad o bobl ddi-Gymraeg i'r ardal (yn lle darparu ar eu cyfer yn y cynlluniau); (b) darparu tir adeiladu a thai at anghenion lleol cydnabyddedig yn unig; (c) annog datblygiadau diwydiannol a fydd yn cynnal ac yn adfer y cymunedau Cymraeg naturiol, yn hytrach na chreu canolfannau twf.

8.7 Yng ngolau'r uchod, gwrthod caniatâd cynllunio i UNRHYW ddatblygiad tai oni ellir dangos fod angen lleol amdano, a na fydd yn niweidio'r gymuned na'i Chymreictod.

ETO, dylid herio'r Swyddfa Gymreig os bydd rhaid.

8.8 Ei gwneud hi'n gytundeb cynllunio na chaiff neb ond rhywun a fu'n gweithio'n lleol neu sydd yn gweithio'n lleol aneddu'r tŷ, a hynny'n barhaol. (o dan Adran 52 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971) yn amod wrth roi caniatâd cynllunio i UNRHYW dy newydd. Mae nifer o awdurdodau yng Nghymru ac yn Lloegr yn ceisio gweithredu hyn eisoes, neu wedi datgan o'i blaid, megis Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd a Chyngor Sir Cumbria. Bydd yn sicrhau y defnyddir hynny o dai newydd a ganiateir, er lles y gymuned.

8.9 Gwrthod adnewyddu, neu dynnu'n 61, unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd eisoes nad yw'n ateb yr amodau a osodir uchod, gan wrthod talu iawndal ac eithrio pan achosid caledi neu ddiswyddo'n lleol. Dylid cofio fod caniatâd wedi'i roi eisoes mewn rhai ardaloedd ar gyfer datblygiadau tai a allai fod yn niweidiol iawn, a mewn rhai achosion lle y gwnaed peth gwaith ar y safle, ni raid i'r datblygwr adnewyddu'r caniatâd. Rhaid tynnu'n ôl ganiatâd felly, naill ai gyda chymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig neu hebddi.

Codwyd o'r ddogfen TAI YN YR ARDALOEDD GWLEDIG - CYFRIFOLDEBAU CYNGHORAU DOSBARTH (Ebrill 1981).

Cynllunio

SUT MAE CYNLLUNIO YN EFFEITHIO AR YR IAITH GYMRAEG?

Honnir gan ryw rai mai ymwneud a defnydd tir yn unig mae penderfyniadau cynllunio. Nid yw hyn yn hollol gywir. Fel y sylwa John Ratcliffe yn ei "Introduction to Town and Country Planning" mae penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar natur y gymdeithas leol:

".... his (y cynllunydd) traditional role of controlling and allocating the use of land among competing activities has been substantially enlarged to take account of social and economic factors".

Mae arbenigwyr eraill yn gytûn hefyd na ellir gwahanu newidiadau ar y gymdeithas leol oddi wrth newidiadau yn y patrwm ieithyddol. Fel y dywed Stephen Wyn Williams o Brifysgol Keele yn ei erthygl "Language Erosion: A Spatial Perspective":

"The preceding analysis has revealed to a large extent the contemporary distribution of Welsh speaking areas and their decline is closely associated with patterns of general socioeconomic development".

Mae hi'n amlwg felly fod y patrwm ieithyddol yn cael ei effeithio gan benderfyniadau cynllunio. Gwelir hyn yn fwyaf amlwg ym maes tai. Gall caniatâd ar gyfer un datblygiad o dai effeithio ar bentref trwy newid iaith bob dydd ei sefydliadau dros nos o Gymraeg i Saesneg.

CEFNDIR POLISI'R GYMDEITHAS.

Deilliodd y syniad o statws cynllunio i'r iaith yng Nghyfarfod Cyffredinol 1977, pan roddwyd cynnig gerbron, oddi wrth y Grŵp Ardaloedd Cymraeg, a ddatganai'n syml "ein hargyhoeddiad bod modd i'r sustem gynllunio gyfrannu'n helaeth at ddiogelu'n hiaith". Ynglwm wrth hyn nodwyd:

(a) Y credai'r mudiad "bod gan gynllunwyr gyfrifoldeb i sicrhau fod datblygiad ardal yn unol a sefyllfa ieithyddol yr ardal a

chymeriad y gymdeithas leol."

- (b) Gwrthwynebnw y polisi o ganolfannau twf a ddilynir yn y canolbarth heddiw.
- (c) Galwn ar yr awdurdodau cynllunio i ymgymeryd a chynllun lleol i astudio'r sefyllfa ieithyddol o dan y ddarpariaeth a geir ar gyfer cynlluniau pwnc.

Galwai'r cynnig hefyd ar i'r Llywodraeth i newid Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971, a gorfodi'r awdurdodau cynllunio lleol i gymryd i ystyriaeth y sefyllfa leol ac i weithredu i hyrwyddo'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol.

Yn yr un cyfarfod hwn hefyd y dilëwyd y grŵp Ardaloedd Cymraeg o blaid Grŵp Cynllunio Cymdeithasol ieithyddol, a fyddai'n ceisio darbwyllo'r awdurdodau priodol i roi "statws cynllunio" i'r iaith, sef gwneud diogelu ac adfer y Gymraeg yn un o'r prif griteria cynllunio. I atgyfnerthu'r perswâd, ymrwymodd y Grŵp hefyd i ddatblygu canllawiau o bolisiau i'w cynnig i'r awdurdodau fel modd o warchod yr iaith a hynny ar sail cymdeithasiaeth - sef derbyn bod pob cymdeithas leol a'i natur a'i thraddodiadau ei hun (yn ogystal a'i hanghenion ei hun) o ran achub yr iaith.

Cam pwysig ymlaen oedd hwn, i geisio sicrhau parhâd i gymdeithasau a brôydd naturiol Gymraeg, gyda chynllunio goleuedig ar eu cyfer yn hytrach na'u gadael i hap a damwain. Gwelai'r mudiad y byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol wneud y Gymraeg yn ganolog i'w polisiau cynllunio os oeddynt "yn ddiffuant yn dymuno iddi fyw."

BETH YW CYNLLUNIO CYMDEITHASOL IEITHYDDOL?

Camddeallwyd yr holl syniad o statws cynllunio yn nyddiau ei mabolaeth. Roedd llawer o resymau am hynny, nid y lleiaf, ddiffyg ewylls i ddeall y syniad, ac anwybodaeth dybryd ymhlith llawer o gynllunwyr y cyngorau a oedd yn methu a dirnad y syniad o gynllunio ieithyddol.

Datblygodd yr egwyddor yn naturiol ddigon ym mrwydr yr iaith,

oblegid gwelai Cymdeithas yr Iaith mai ansefydlog a seithug fyddai ennill yr holl hawliau i'r Gymraeg, megis ffurflenni, a theledu oni bo parhad i'r cymdeithasau Cymraeg. Ffenomenon gymdeithasol yw iaith, a gwelsom ei bod yn bwysig cynllunio' n fwriadus ar ei chyfer.

Yr hyn a olygir wrth statws cynllunio i'r Gymraeg felly yw cynnwys yr iaith Gymraeg fel ffactor holl bwysig ym maes cynllunio llywodraeth leol drwyddo draw, gan osod bodolaeth a pharhad y Gymraeg fel ystyriaeth sydd o leiaf yr un mor bwysig a ffactorau megis adeiladwaith, yr amgylchedd, gwaith ac anghenion lleol wrth roi neu wrthod caniatâd cynllunio.

Tueddu i fod yn negyddol yw ystyried rhwystro datblygiadau - ond mae lle i'n cynllunwyr fod yn adeiladol hefyd gyda golwg ar gynllunio dyfodol i'r iaith Gymraeg. Mae cynllunwyr yn cynllunio ar gyfer dyfodol pethau megis henebion, ardaloedd o harddwch arbennig, a hyd yn oed gallant roi go^chymyn cadwraeth ar goeden. Ein dadl ni yw os gall cynllunwyr gymryd i ystyriaeth yr holl bethau hyn paham nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn yr un modd proffesiynol.

Dylai'r Gymraeg gael statws cynllunio llawn ac ymarferol trwy i gyngorau ystyried effaith datblygiadau newydd ar yr iaith. Os yw datblygiad newydd yn debygol o beryglu safle'r iaith dylai'r Cyngor wrthod y cais. Ar y llaw arall, dylid cynllunio'n fwriadol ar gyfer ffyniant yr iaith trwy annog datblygiadau a fydd yn helpu datblygiad yr iaith.

Mae Stephen Wyn Williams yn ei erthygl uchod yn cydnabod bod yn rhaid i'r cynllunwyr gydnabod eu cyfrifoldeb tuag at yr iaith os yw am barhau:-

".... if language policies are not to strike simply and ineffectively at symptoms, language planning and regional planning will have to act far more in concert than hitherto has been the case."

Gwelsom ar ddechrau'r wythdegau fel y mae cynllunio annoeth yn

medru tanseilio ac ymddatod cymunedau cyfain. Gan fod cynllunio yn ymdrin a fframwaith cymdeithas yn ei chyfarwydd mae'n anorfod bod ymgyrch cynllunio'r Gymdeithas yn gorgyffwrdd a phob

"O gael statws cynllunio i'r iaith Gymraeg ac astudiaeth fanwl o'i sefyllfa mewn adroddiadau pwnc daw'r Gymraeg yn rhan naturiol bob dydd o'r broses cynllunio.

un o feysydd ymgyrchol arall y Gymdeithas - megis tai, trafnidiaeth, gwaith, addysg a'r mewnlifiad. Onid penderfyniadau cynllunio anoleuedig ynghylch tai a thwristiaeth sydd wedi peri'r fath anniddigrwydd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelsom, a gweithredu hefyd yn erbyn cynlluniau hapfasnachol ac anystyriol a ddaeth ar ffurf tai a thwristiaeth e.e. Harlech a'r Gaerwen. Yn yr un modd gwelwn greu "Marina" Pwllheli fel bygythiad arall a fydd yn andwyo'r gymuned Gymraeg. Hefyd bu'r mewnlifiad o Saeson i'r ardaloedd Cymraeg dros y degawd diwethaf yn ergyd i lawer cymuned. Newidiodd natur y pentrefi, newidiodd patrwm addysg llawer i ysgol. Mae poblogaeth yr ardaloedd Cymraeg yn newid o hyd ac o hyd, gan ansefydlogi'r gymdeithas leol a'i hanniddigo hefyd. Rhaid ymgyrchu dros ddulliau o reoli'r boblogaeth mewn modd a fydd yn atal y dirywiad, cadw a diogelu'r iaith ynghyd a'r nod o ennill y tir a gollwyd.

ARGYMHELLION CYMDEITHAS YR IAITH.

1. Adroddiad Pwnc ar y Gymraeg. Er mwyn i gynllunwyr allu ystyried yr iaith wrth gynllunio, rhaid bod sylfaen o ffeithiau ganddynt. Mewn meysydd eraill mae'r cynghorau'n cynhyrchu Adroddiadau Pwnc sy'n amlinellu cefndir y sefyllfa yn y maes hwnnw gan egluro'r sefyllfa bresennol gyda phroffwydoliaethau ar gyfer y dyfodol, wedi eu seilio ar ddadansoddiad ystadegol proffesiynol. Os gellir gwneud adroddiadau pwnc ar dwristiaeth, siopau, bysiau, ac yn y blaen yna gellid ei wneud ar yr iaith hefyd. Yn wir mae rhai cynghorau wedi mentro i wneud hyn yn barod - gwnaed adroddiad pwnc ar yr iaith Gymraeg yn rhan o Gynllun Ardaloedd Arddudwyd Adroddiad gan Gyngor Sir Dyfed ond maent yn gwrthod ei drafod.

2. Ond beth am yr amser byr? Mae'n rhaid i'r Gymraeg gael ei hystyried mewn penderfyniadau cynllunio NAWR. Mae'r hawl yno yn awr i gynllunwyr ystyried yr iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau. Mae'r hawl wedi'i gynnwys yng Nghyfarwyddiadau'r Swyddfa Gymreig 1974, wedi ei ddiweddarau gan Gyfarwyddiadau 1982. Mae rhai awdurdodau eisoes wedi manteisio ar yr hawliau hyn e.e. Cyngor Dosbarth Arfon wedi derbyn yr egwyddor o ystyried cynllunio i'r Gymraeg.

Gwelwn yr egwyddor hon yn Adroddiad terfynol Cyngor yr Iaith yn 61 yn y saithdegau. "Cytunwn a'r farn a fynegwyd wrthym droeon y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant sy'n gysylltiedig a hi mewn materion cynllunio yng Nghymru".

GALWN FELLY AM:

- (A) Benderfyniad polisi yn rhoi statws cynllunio i'r iaith Gymraeg ar lefel sirol, bwrdeistrefol a chan y Swyddfa Gymreig wrth ddelio ag apeliadau.
- (B) Arolygon cyson ac adroddiadau gan adrannau cynllunio'r cynghorau ar sefyllfa'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o'u tiriogaethau, gydag argymhellion i wella'r sefyllfa.
- (C) Fod cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn dod yn rhan naturiol a hanfodol o'r broses gynllunio lleol. Golyga hyn:

i) fod Cynghorau Dosbarth yn gwneud Adroddiad Pwnc ar yr iaith Gymraeg yn eu cynllun Ardaloedd/Dosbarth.

ii) fod y Cyngor Sir yn gwneud atodiad statudol i'r Cynllun Fframwaith ar sefyllfa'r Gymraeg yn y Sir.

iii) fod Cynghorau Cymuned yn llunio argymhellion ar sut i wella sefyllfa'r Gymraeg o fewn eu cymunedau.

(CH) I'r Awdurdodau lleol bwysu ar y Swyddfa Gymreig i dderbyn yr egwyddor o Statws Cynllunio i'r iaith Gymraeg fel nad oes perygl iddi ganiatáu apeliadau yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio ar y sail hon.

GWAITH Y GYMDEITHAS.

Mae rhai o gelloedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg eisoes wedi llunio eu Cynlluniau iaith eu hunain, does ond rhaid enwi Cynllun Iaith Plwyf Llanwenog a Chynllun Iaith i'r Rhyll i ddangos dau begwn eithaf ar bolisi Cynllunio Cymdeithasol Teithyddol. Dylid nodi'n glir yma, os gall y Gymdeithas, gyda'i hadnoddau prin, gynhyrchu Cynlluniau Iaith sydd yn cael eu hystyried yn batrwm gan yr Awdurdodau, ar gyfer datblygu'r Gymraeg, yna does dim rheswm yn y byd paham na all y Cynghorau wneud yr un peth. Os na fydd y Cynghorau yn ymgymryd â'u cyfrifoldeb yn y maes hwn yna fe fydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu'n uniongyrchol ac yn ddi-drais yn eu herbyn. Yn ogystal â hyn bydd celloedd eraill y Gymdeithas yn paratoui eu Cynlluniau Iaith hwy fel sylfaen i waith y Cynghorau.

Tair rhan fydd i strategaeth y Gymdeithas yn ystod y blynyddoedd nesaf felly. Yn gyntaf, bydd yn cynnal deialog a'r Cynghorau, a cheisio dwyn perswâd arnynt i dynhau'r deddfau ac amodau cynllunio. Yn ail, paratoui cyfres o gynlluniau iaith. Yn olaf, bydd yn cymryd camau ymarferol yn erbyn Cynghorau a chwmmiau datblygu gyda golwg ar rwystro datblygiadau annerbyniol.

Yr Economi

Bu'r Gymdeithas yn ymwneud a'r maes hwn fwy-fwy yn ystod y blynyddoedd a hynny ar ddwy lefel.

1). DEFNYDD O'R GYMRAEG GAN SIOPAU A CHWMMIAU.

Yn gyntaf, bu'n annog a phrocio defnydd o'r Gymraeg gan gwmnïau a siopau. Ceisiwyd argyhoeddi siopau megis Boots a Smiths (ynghyd â siopau unigol mewn pentrefi a threfi led-led Cymru) y dylent weithredu polisi dwyieithog yn eu siopau ar arwyddion a deunydd cyhoeddusrwydd cyffredinol. Llwyddwyd i raddau yn hyn o beth ar ôl gweithredu trwy bicedu a chreu rhwystredd ymarferol i'r siopau, ond cymharol oedd y llwyddiant. Ymwneud a statws i'r iaith mewn gwaith a masnach oedd yr ymdrech hon ac mae angen parhau i hyrwyddo polisi o ddefnyddio'r iaith gan gwmnïau masnachol. Dylid cael darpariaeth gan Adrannau Masnach Llywodraeth Leol a Llywodraeth Ganolog i gynorthwyo a deddfu o blaid y Gymraeg ar labeli nwyddau, arwyddion siopau ac ati. Cam i'r cyfeiriad yma fyddai ymgorffori yr egwyddorion hyn mewn Deddf Iaith newydd.

2). GWAITH I GADW'R IAITH.

a). Amcanion.

Yn bwysicach na'r ymwneud a statws yr iaith ym myd diwydiant a masnach yw'r angen i sicrhau sylfeini economaidd a fydd yn cynnal cymdeithasau sy'n rhoi bod i'r gymuned Gymraeg a Chymraeg. Nid oes dyfodol i'r iaith a'r uned Gymreig oni bo yna waith a chynhaliadaeth i'w phobl. Hanfod parhad a datblygiad ein cymdeithasau led-led Cymru yw'r gallu i ddarparu gwaith i'r bobl yn eu cymdeithasau. Bu hyn yn safbwynt cyson gan y Gymdeithas dros y blynyddoedd ac esgorodd ar lunio argymhellion a gweithgarwch.

Ffaith ddigamsyniol yw hyn yn ein cymdeithasau Cymraeg oherwydd gwelwyd effaith diffyg cyfle gwaith yn arwain at ddiestrïo cymdeithasau Cymraeg. Mae diogelu sylfaen economaidd cymdeithasau Cymraeg yn allweddol i strat-egaeth y mudiad iaith yng Nghymru a bu Cymdeithas yr Iaith vn flaenllaw yn y frwydr hon. Cyflwynwyd argymhellion manwl pan sefydlwyd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig gan ddadlau ei bod yn angenrheidiol i osod yr iaith yn ffon fesur wrth lunio polislau ond fel y gweddill o asiantau'r Llywodraeth, maent wedi methu.

Nid yw'r polisiau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan yr asiantau datblygu yn cymryd yr iaith i ystyriaeth wrth gyfeirio eu cynlluniau lleoli, denu a chynorthwyo diwydiant. Yn yr un modd mae llywodraethau Prydeinig wedi mabwysiadu polisiau economaidd nad ydynt yn caniatáu i hynny fod yn bosibl.

Mor bwysig felly yw rheolaeth dros ddatblygu diwydiannol. Rhaid wrth reolaeth y gymuned dros bolisiau datblygu diwydiannol fel bod modd defnyddio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn lles y gymuned.

b) Polisiau.

Yr ydym eisoes wedi dangos natur esblygol polisiau Cymdeithas yr Iaith. Gyda datblygiad y Gymdeithas, dyma faes y rhoddir mwy a mwy o bwyslais arno. Gallwn amlinellu sylfeini'r polisiau fel a ganlyn:

(i) Rheolaeth y gymuned leol:

Mater o reidrwydd gwrthrychol yw i ni sicrhau perchnogaeth gyhoeddus ar gynllunio datblygiadau ac ar yr holl foddion cynhyrchu a dosbarthu, os ydym am sicrhau sylfeini materol digonol i gymunedau lleol Cymru. Yn hanesyddol, nid oes unrhyw ddsbarth eang o bobl wedi datblygu yng Nghymru a oedd yn meddu ar y cyfalaf digonol i fedru ymgymryd â'r orchwyl hon, ac

ni allasid fod wedi ymddiried ym mympwy cyfalaf preifat i wneud hyn beth bynnag. Dyma fyddai'r rysâit dros barhau'r drefn o ddatblygu adnoddau Cymru yn ôl buddiannau allanol. Nid yw'r byrddau enwebedig na'r byrddau gwladoleddig presennol ychwaith yn synhwyrus i'r anghenion i ddatblygu'r economi yn ôl buddiannau'r gymuned leol. Anelwn felly at sefyllfa lle

a). byddai'r prif gyfrifoldeb o ran strategaeth datblygu economaidd gyda'r awdurdodau lleol. Dylent gymryd cyfrifoldeb dros bob swyddogaeth sydd ar hyn o bryd gan gyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. Fel polisiau amser byr hyd nes yr ail-ystyriwr yr holl drefn o godi trethi a llywodraethu, dylent derbyn grant datblygu economaidd gan y llywodraeth ganolog yn yr un modd ag y mae cynghorau dosbarth yn derbyn grant tai ar hyn o bryd.

b). byddai'r rheolaeth feunyddiol ac ymarferol dros y gwaith tu fewn i'r gymuned leol - gan weithwyr yn eu manau gwaith ac mewn trefi newydd i'w datblygu o fentrau cymunedol. Dim ond yn y modd yma y gellid magu ymdeimlad o gyfrifoldeb yn ein pobl tuag at eu cymdeithas leol gan roi iddynt y grym ymarferol o lunio dyfodol iddi.

c). Cydnabyddid y byddai'n rhaid trefnu'r gwasanaethau mwyaf sylfaenol megis dŵr ac ynni a rhai o'r diwydiannau trymaf ar raddfa genedlaethol Gymreig, ond dylid gwneud hynny mewn ymgynghoriad gyda'r awdurdodau lleol perthnasol.

(ii) Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol

Rhagwelwn ychwanegu sylweddol

felly at eu grymoedd yn y maes hwn (ac yn y pen draw, drefn o gynghorau democrataidd newydd). Ond gallent hefyd gymryd llawer o gamau yn yr amser byr.

a). Mewn rhannau helaeth o Gymru, yr awdurdodau lleol yw'r cyflogwr mwyaf. Gwrthwynebw'n yn chwyrn pob ymgais i leihau nifer a chyfran y gweithwyr yn y sector gyhoeddus a galwn ar gynghorau Cymru i wrthod unrhyw bwysau gan lywodraeth ganolog i gwtogi nifer eu gweithwyr. Dylid datblygu, yn hytrach na lleihau, yr adrannau llafur uniongyrchol (er eu trefnu mewn modd gwahanol yn unol a'r egwyddorion a amlinellwyd yn yr adran flaenorol.

b). Dylai anghenion y gymuned leol fod yn brif ffactor wrth ystyried natur datblygiadau diwydiannol. Gallai adrannau cynllunio yn ogystal ag adrannau datblygu diwydiannol gynorthwyo gyda hyn. Rhaid i ni ymwared a "meddylfryd yr ystadegau moel", h.y. darparu hyn a hyn o swyddi newydd heb ystyried natur y gwaith na'i effaith ar y gymdeithas leol

c). Dylai pob grant a roddir i gwmnïau preifat i gyflogi gweithwyr ychwanegol fod yn amodol- sef yw hynny fod y gweithwyr wedi bod yn byw yn yr ardal am gyfnod arbennig.

ch). Dylai pob awdurdod lleol sefydlu cronfa i brynu busnesau o adran y gwasanaethau - e.e. siopau, gwestai, modur dai, a'u rhentu i denantiaid lleol. Mae tueddiad i anwybyddu cyfraniad cwbl allweddol adran y gwasanaethau tuag at gyflogaeth, a chaiff nifer cynyddol o'r busnesau hyn eu gwerthu i bobl o'r tu allan.

d). Dylid rhoi hwb sylweddol i fentrau cymunedol newydd - un o'r datblygiadau

diweddar mwyaf cyffrous - trwy gyngor a thrwy ragfarnu o'u plaid o ran grantiau gan eu bod yn meddu ar y math o drefniant sydd fwyaf tebygol o fod yn synhwyrus i anghenion y gymuned leol. Y mae nifer o fodlau posibl ar gyfer y mentrau hyn. e.e. i. mentrau preifat lle rhennir y berchnogaeth a'r rheolaeth rhwng y gweithwyr, e.e. ii. mentrau cydweithredol wedi'u gwreiddio mewn pentref neu stad lle ceir partneriaeth rhwng y gymuned a'r gweithwyr, e.e. iii. trefn lle mae'r awdurdod lleol yn perchnogi'r busnes gyda'r rheolaeth yn nwylo'r gweithwyr.

iii). Addysgu'r bobl ar gyfer trefn newydd:

Clywir llawer o alwadau ar i'r gyfundrefn addysg uniaethu fwy gyda busnes. Ni chredwn y dylai cwmnïau preifat gael unrhyw fath o reolaeth ar y gyfundrefn addysg, ond dylai ysgolion a cholegau baratoi myfyrwyr i ddeall natur yr economi leol a chenedlaethol a'u magu i fod yn barod ac yn alluog i gyfrannu at ddatblygu'r economi leol. Dyma'r hyn ddylai fod, yn hytrach na'r nod presennol o baratoi 'hufen' o fyfyrwyr i ymadael â'u cymdeithasau eu hunain er mwyn cystadlu i ddringo i swyddi uchel mewn cwmnïau mawr a than y Wladwriaeth. Dylid diwygio'r drefn o gynghori gyrfaoedd fel ag i ddangos i fyfyrwyr pa gyrsiau sydd fwyaf perthnasol i'w dilyn er mwyn sicrhau gwaith yng Nghymru a gallu cyfrannu at y gymdeithas leol.

c). Gweithredu.

Y mae polisiau'r Gymdeithas yn codi o drafodaethau gyda chynghorwyr, undebau llafur, ac o weithio yn y maes.

Byddwn yn troi fwy fwy at weithredu yn y maes hwn drwy drefnu pwysau ar awdurdodau lleol i dderbyn eu cyfrifoldebau, trwy drefnu gwasanaeth cynghori gyrfaoedd eu hunain i fyfyrwyr; trwy waith ein

grŵp undebau llafur; trwy gyd-weithio gyda gweithwyr ar adegau argyfyngau arbennig (e. e. ein hymgyrch yn Shotton yn y Saithdegau); trwy gyhoeddusrwydd a thrwy fod rhai o'n celloedd lleol yn ymroi i sefydlu cwmnïau cydweithredol lleol.

Byddwn hefyd yn grymuso'r pwysau ar gymnïau i roi statws llawn i'r Gymraeg yn eu holl adeiladau ac ar eu nwyddau. Effaith uniongyrchol hyn fydd i gyfrannu at sefydlu cyfundrefn ddsbarthu annibynnol i Gymru.

AMAETHYDDIAETH.

Rhodddwn sylw arbennig i'r diwydiant hwn gan cyn gryfed yr ei afael a'i bwysigrwydd ar yr ardaloedd Cymraeg. Gwelwn yr angen yma am reolaeth gan y gymuned dros y diwydiant, a hynny am fod caniatâu i farchnad agored i benderfynu newidiadau yn beryglus ac yn andwyol i'r iaith. Gwelwn hyn eisoes yn y newid a ddaeth yn sgil y prynu ffermydd gan bobl o wledydd eraill yn ogystal ag uno ffermydd a pherchnogaeth drwy gyfalaf. Mae hyn yn creu anhawster ychwanegol i ddwyn ffermwyr ifanc i mewn i'r diwydiant ac mae angen darparu'n helaeth unedau o ffermydd a fydd wedi'i rheoli gan y gymuned leol, - ffermydd sy'n eiddo i'r cynghorau lleol.

TWRISTIAETH.

Dylid nodi ar y dechrau nad oes dim byd cynhenid mewn twristiaeth fel y cyfryw. Wedi'r cyfan mae gan, neu fe ddylai fod gan, bawb yr hawl i wyliau ac i deithio ac i ymweld ag ardaloedd a gwledydd eraill, a hynny er mwyn eu hiechyd, eu mwynhad a'u haddysg.

Mewn Cymdeithas gref, naturiol iach fe all Twristiaeth fod yn gaffaeliad pwysig i economi ardal a hynny heb niweidio diwylliant nac economi'r ardal honno, dim ond iddo gael ei reoli er lles y gymuned.

Yn anffodus nid yw'r math hwnnw o sefyllfa'n bodoli yng Nghymru heddiw. Nid yw ein cymunedau'n ddigon cryf ac iach i allu derbyn twristiaeth fel rhan naturiol o'u heconomi leol ac nid yw'r diwydiant yn cael ei reoli gan y gymuned er lies y gymuned. Mewn sefyllfa annaturiol o'r fath fe gyfyd yn ei sgil effeithiau drwg y diwydiant:- niweidio a newid natur ddiwylliannol ac economaidd yr ardal, creu gwaith tymhorol yn unig, mynd yn sylfaen i economi gwan ac felly'n newid natur yr ardal i un o ddibyniaeth lwyr ar dwristiaeth a chreu elw mawr i unigolion ar draul anghenion y gymdeithas gyfan. Hefyd fe gyfyd cyrff annaturiol fel y Bwrdd Twristiaeth sydd yn gwneud ei orau glas i argyhoeddi'r Cynghorau bod twristiaeth yn ateb i broblemau di-weithdra ac sydd yn creu cynlluniau mawreddog dros Gymru gyfan i hybu'r diwydiant heb ystyried o gwbl yr effaith ar fywyd yr ardaloedd dan sylw. (Fe welwyd hyn gyda Chynllun y Bwrdd i sefydlu cyfres o "Marinas" ar hyd arfordir Cymru a'r newid anochel yn y bywyd lleol a ddaw yn sgil Cynllun o'r fath.)

Gan fod sefyllfa Cymru'n un annaturiol felly mae'n rhaid wrth bolisiau arbennig i ateb yr anghenion arbennig, a dylid pwysleisio yma mai am y tymor byr yr ydym yn sôn yn bennaf, wrth gyflwyno polisiau ar dwristiaeth. Bwriad cyfanwaith polisiau'r Gymdeithas yw ceisio newid natur economaidd a diwydiannol Cymru ac os llwyddo fe ddylwn fod mewn sefyllfa ymhen deng mlynedd i gyflwyno ail a thrydedd setiau o

ond yn yr haf.

bolisiau'n ymwneud â Thwristiaeth gan ystyried y diwydiant fel rhan o bartneriaeth gref a theg yn economi'r ardal a weithia er lles yr ardal a'i thrigolion.

1. Ar adeg cyhoeddi'r maniffesto hwn Twristiaeth yw'r unig ddiwydiant sydd yn parhau i dyfu, yn ôl y Bwrdd Twristiaeth. Serch hynny dyma'r unig ddiwydiant nad yw'n atebol i ddymuniadau llywodraeth(boed yn genedlaethol neu'n lleol) nac ychwaith i ddymuniadau'r trigolion lleol. Mae'n rhaid felly, fel y cam cyntaf tuag at wneud Twristiaeth yn bartner mewn economi leol, cael rheolaeth lwyr dros y diwydiant gan y Cynghorau Dosbarth. Golyga hyn na chaniateir unrhyw ddatblygiadau Twristiaeth sy'n darparu ar gyfer mwy na 6 o bobl tu mewn i ardal heb ganiatâd arbennig gan y Cyngor. Ni roddir y caniatâd hwnnw heb fod y Cyngor yn gyntaf wedi ystyried anghenion diwylliannol, iechydol/cymdeithasol ac economaidd yr ardal dan sylw ac wedi cynllunio'n ofalus, mewn nifer o feysydd megis tai a gwaith ar gyfer ail-adeiladu fframwaith economaidd a chymdeithasol tiriogaeth y Cyngor. Wedyn dim ond os yw'r datblygiad Twristiaeth arfaethedig yn cyd-fynd â strategaeth gymdeithasol y Cyngor y dylid ei ganiatâu.

2. Yn ail dylai'r Cynghorau gymdeithasoli adnoddau Twristiaeth yn ddi-oed. Golyga hynny, y dylai'r Cynghorau feddiannu'r adnoddau hynny a'u rhedeg fel busnes i sicrhau incwm sefydlog ar gyfer gwella anghenion y Gymdeithas leol, gan wella'r gwasanaethau cyhoeddus, ail fywiogi bywyd diwylliannol yr ardaloedd, creu gwaith a sefydlu ffatrioedd a mentrau bychain i'r di-waith a hybu ffyniant economaidd a diwylliannol yn eu tiriogaethau.

3. Golyga Pwynt 2 uchod bod y pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaethau, yn mynd yn staff swyddogol, cyflogedig i'r Cyngor ac felly'r derbyn cyflog trwy gydol y flwyddyn, nid dim

4. Datganwn na ddylai twristiaeth fod yn sylfaen i economi unrhyw ardal. Cydnabyddwn mewn rhai ardaloedd arbennig, fodd bynnag, y bydd cynghorau'n dewis datblyg mathau arbennig ar dwristiaeth gan ddefnyddio'r incwm er budd y gymdeithas leol. Fel engraifft o'r posibilïad hwn, yr ydym wedi amlinellu yn "Cynllun Iaith i'r Rhyd" (1982) fel y gellid sefydlu "Bwrdd Datblygu'r Glannau" i sianelu incwm o dwristiaeth i ddatblygu seiliau mwy cytbwys i fywyd yr ardal. Mewn rhai ardaloedd eraill, ni chaniateid unrhyw ddatblygiadau twristaidd hyd nes y bydd cyfanwaith polisiau'r Cyngor wedi dechrau gweddnewid a chryfhau y bywyd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae CIG yn gosod y cyfrifoldeb am reoli a datblygu twristiaeth er b y trigolion lleol a'r gymdeithas leol yn blwmp ac yn blaen ar ysgwyddau'r Cynghorau Dosbarth. hir y buont yn caniatâu datblygu a damwain ac wedi bodloni ar weld ardaloedd cyfan yn mynd yn hollol ddibynol ar dwristiaeth fel sail i'r economi. Nawr yw'r amser i lunio strategaeth bendant wedi'i ffurfio o gwmpas pwyntiau 1 a 4 i sicrhau gwella ansawdd bywyd a diwylliant y gymuned fel cyfanwaith.

Dulliau o Weithredu

Carem ail ddatgan mai mudiad sy'n parhau i ddefnyddio dulliau di-drais o weithredu, yn unig yw Cymdeithas yr Iaith. Nid ar chwarae bach yr aed ati, yn y lle cyntaf i weithredu'n y modd hwn ond ar ôl i bob dull cyfansoddiadol arall fethu a dwyn ffrwyth, gan newid sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Parodrwydd aelodau o'r Gymdeithas i gyflawni tor-cyfreith yn agored a chyda'r parodrwydd i dderbyn y cyfrifoldeb am eu gweithgareddau a roddodd i'r Gymdeithas ei chyhyrau cychwynnol. Heriodd y Drefn a chyfiawnhau gwneud hynny am y credai mai dyletswydd moesol yw anufuddhau i Lywodraeth sy'n treisio hawl pobl i gyfiawnder a rhyddid. Dyna a wnaed drwy wrthod a chofrestru genedigaethau plant: peidio a chodi trwyddedi ceir ac ati.

O'R UNIGOL I'R TORFOL.

Newidiodd maes yr ymgyrchu o'r unigolyn i'r gweithredu torfol. Tra roedd unigolion yn ddigon i ddwyn pwysau a thynnu sylw at anghyfiawnderau'r iaith drwy wrthod a thalu dirwyon: rhwystro'r ffordd; ymwrthod â thrwyddedau teledu, lledodd y frwydr i gynifer o ymgyrchoedd, e.e. Swyddfa Post, Sianel Deledu, a Thai. Amharwyd ar weinyddiaeth, dygwyd ffeiliau, neddiannwyd tai haf; dilewyd goleuadau feniau, a chreodd y gweithredoedd wir gynnwrf a gwrthdaro yng Nghymru. Hyn oll drwy ddulliau cwbl ddi-drais a'r rheiny'n rheolau disgybledig wedi eu pennu gan Senedd Cymdeithas yr Iaith. Bu ymddisgyblaeth Cymdeithas Yr Iaith mewn gwrthdystiadau yn dystiolaeth o'i hymrwymiad difrifol i'r dull heddychlun o weithredu.

Nid digon fodd bynnag yw cyhoeddi ein bod yn fudiad di-drais, rhaid yw ei ddiffinio'n groyw. Oni ddwedodd Lenin fod yn rhaid i bob ymarferiad chwyldroadol wrth ddamcaniaeth chwyldroadol a bod yn rhaid i'n cymhelliant fod yn ddyfnach na'r 'sfa wleidyddol am rym?

Mabwysiadwyd y dull di-drais fel modd strategol o newid sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein canrif a hynny trwy ddulliau na fyddai'n peri

niwed corfforol i unrhyw unigolyn arall. Hynny, am y credwn fod y camau uniongyrchol yn effeithiol o'u harfer yn erbyn anghyfiawnder sylfaenol sefyllfa'r Gymraeg ynghyd â pharchu'r sawl y brwydrwn yn eu herbyn. Yn wir drwy frwydro dros hawliau moesol y daethom i ymddwyn yn synhwyrus iawn tuag at y "gelyn" y gelyn oedd hefyd yn gymydog-inni. Rhoddwyd pwys a pharch ar hynny. O weithredu tor-cyfraith yn gyfrifol, gobeithiwn ennill y di-Gymraeg ryw ddydd yn Gymraeg. Brwydro dros wireddu cymdeithas gyfartal a wnawn a'n nod yw cymhathiad llwyr.

Crea rym treisiol, hyd yn oed o'i ddefnyddio yn yr "ultima ratio", gymdeithas ofnus chwerw. Yr ydym am adfer y Gymraeg. Ond nid ydym am dalu pris o golli gwaed diniwed drosti.

DWYSAU'R DULLIAU.

Gwelir yn eglur fod dau ddosbarth o weithredu sef y torfol a'r difrifol. Dwysaodd defnydd Cymdeithas yr Iaith o'r dulliau hyn dros y blynyddoedd. Troesom o'r ymryd, gwrthod â thalu trethi a dirwyon at wneud difrod cyfyngedig i eiddo ac ati. Credwn fod modd cyfiawnhau peri'r difrod bwriadus hwnnw o'i benderfynu ymlaen llawn, yn fanwl a chyda'i weinyddu'n ofalus, am y ceisiwn drwy weithred seml danseilio'r drefn a gynhaliwyd drwy drais. Yn y gorffennol, dinistriwyd dyfryngau darlledu am mai cyfryngau trais oeddynt yn gwarafun hawliau moesol y Gymraes/o i gael sianel yn ei (h)iaith. Dywedodd Rubem Alves "bod ofn yn esgor ar drais gan fod y rheiny sy'n rheoli'n defnyddio'u grym i sicrhau na ddaw yfory i fygwth y presennol". Llwyddodd y mudiad droi'r yfory'n realiti gan ennill y frwydr dros sianel deledu Gymraeg. Gwnaed hyn drwy ddifrodi'n gyson a dyfalbarhau i sigo'r awdurdodau nes eu symud i ildio. Gwnaed hyn oll drwy'r dull di-drais.

DERBYN CYFRIFOLDEB.

Addaswyd dulliau'r mudiad ar ddiwedd y saithdegau er mwyn effeithiolu a phrysuro'r pwysau ar y Llywodraeth. Yn hyn o beth, gwelwyd fwy-fwy o weithredoedd yn digwydd yn enw Senedd Cymdeithas yr Iaith. Cymerai gyfrifoldeb ar y cyd am ei gweithgareddau. Datblygiad oedd hyn

o gyfnod y chwe degau a dechrau'r saith degau pan y cai pob unigolyn a weithredai, ei hun gerbron llys barn.

Yr hyn y rhoddwyd pwys arno oedd fod yna gorff o bobl a oedd yn atebol am yr hyn a wnaent. Gwrthododd Cymdeithas yr Iaith a'i Senedd a thanddaearu'u gweithgareddau. Nid mudiad dirgel mohonom. Parhawn yn gwbl agored fel Cymdeithas. Ymatebodd yr Awdurdodau i'r derbyn cyfrifoldeb hwn drwy'r ddeddf Cynllwynio; deddf a'u galluogai i ddedfrydu arweinwyr dro ar ôl tro, drwy ddulliau digon ysgeler.

EIDDO CYHOEDDUS, PREIFAT, PERSONOL.

Lledodd ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith hefyd a'i hymwneud a thor-cyfraith. Difrodi eiddo cyhoeddus a wnaeth i gychwyn a dewis targedau o eiddo'r Llywodraeth. Ond gydag ymgyrch fel honno yn erbyn tai haf, sylweddolwyd y byddai'n rhaid ymwneud hefyd ag eiddo preifat. Nid heb ystyried yn ddwys oblygiadau'r gweithredu yr aed ati i ddilyn y llwybr anorfod hwn. Credwn mewn perswâd nid gorfodaeth, ond rhaid oedd defnyddio esiamplau o'r hyn a safai'n drais vn erbyn Cymru er mwyn dwyn perswad ar y Llywodraeth ac unigolion eraill. Gan mai gweithgarwch a allai niweidio unigolion yw trais yn ôl ein diffiniad, nid ydym erioed wedi ystyried difrod i eiddo materol ynddo'i hun yn drais. Nid ydym erioed wedi rhannu'r gred gyffredin yn y Gorllewin fod eiddo'n "sanctaidd". Mewn nifer o amgylch-iadau - lle defnyddid eiddo at bwrpasau treisiol (boed hynny'n gorfforol neu'n seicolegol) yn erbyn pobl Cymru - mae difrod i eiddo wedi bod yn gam pendant tuag at symud trais.

LLWYDDIANT TRWY LIWGARWCH.

Enillodd y dylliau anghyfundrefnol o weithredu lawer o fuddugoliaeth-au i'r Gymraeg megis Sianel Deledu Gymraeg, arwyddion dwyieithog, Y Swyddfa Bost, a'r Rheilffyrdd Prydeinig. Ond dibynnodd y dulliau hefyd ar newydd bethau, digwyddiadau trawiadol, sefyllfaoedd gwahanol er denu sylw a sylwebyddion. Amrywiodd o gadwyno at ddringo mastiau teledu, llosgi graddau, mynd ar drên heb dalu ac ati. O

weithredu'n lliwgar gwelsom fod ein nymgyrchu'n llwyddo, o ddyfal-barhau a thipyn o grebwyll. Yn yr un modd, cyflawnodd difrodi eiddo ymateb chwyrn o du'r awdurdodau am y parchent eiddo yn fwy na phobl. Oherwydd hynny, nid oedd ganddynt y gallu i ddeall hanfod y dull di-drais o weithio.

Y DYFODOL.

Bu'r dull di-drais nid yn unig yn athroniaeth y gallodd yr aelodau ymddisgyblu ac ymhyfrydu ynddi, ond gwelsom ei bod hefyd yn fodd i feithrin ymagwedd newydd pobl tuag at ei harfer. Yn ystod yr ymgyrch Ddarlledu, gwelsom fod cannoedd o bobl yn barodi ymgymeryd a chyfnod o anufudd-dod suful drwy beidio a chodi trwyddedau teledu ac ati. Pobl a fu'n feirniadol o dor-cyfraith oedd llawer o'r rhain. Eto, safodd fwy-fwy o Gymry yn y doc, llawer ohonynt yn enw Cymdeithas yr Iaith.

A dyma yw dyfodol euraid y dull di-drais yng Nghymru. Nid chwilen ym mhen myfyrwyr mohoni bellach. Meddai J. R. Jones yn ei ddarlith "Gweithredu Anghyfreithlon",

"Rhaid i fwy-fwy o drwch cyfrifol ohonom, ac nid rhyw un yma ac un acw, fynd fel petai y tu allan i'r gwersyll a chymryd ein cyfrif er mwyn ein hetifeddiaeth."

Gyda phobl felly'n barod i weithredu tor-cyfraith, hawdd fyddai inni ennill ymgyrchoedd y dyfodol. Mae angen anufudd-dod suful er mwyn sbarduno newid buan yn sefyllfa'r Gymraeg.

NEWID MEWN TRAIS.

Bodola Trais y Wladwriaeth o hyd. Er gwaethaf ambell gonsasiwn, newidiodd agwedd y wladwriaeth tuag at anufudd-dod suful o bob math, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Ymatebodd y wladwriaeth yn llymach o weld parodrwydd Cymdeithas yr Iaith i ymhel yn ddifrifol a'i hawliau. Y mae'r dull di-drais felly'n rhoi addysg wleidyddol i bawb, i'r awdurdodau yn ogystal ag i'r aelodau unigol sy'n ei defnyddio.

Tristawn o weld mudiadau byr hoedlog yn defnyddio trais, gan y credwn mai llwybr sy'n arwain i 'gul-de-sac' yw, a hwnnw'n llwybr

hunan-ddinistriol.

Asgwrn cefn y mudiad yw ei barod-
rwydd i welthredu, yn
anahyfansoddladol ac
anghyfreithlon. Ein cyfrifoldeb yw
parhau i frwydro'n y dull hwn, er
mwyr) profi ei effelthiolrwydd, a
hynny heb droi'n hunan-gyfiawn na
hunan-fodlon ein hysbryd. Ein nod
yw creu cymdeithas newydd
heddychlon yng Nghymru, â'r iaith
yn gyfrwng mynegiant i'r freuddwyd
honno.

Casgliadau

1. ATHRONIAETH WLEIDYDDOL CYMDEITHAS YR IAITH.

Daliwn fod athroniaeth unol yn rhedeg trwy'r holl feysydd yr ydym wedi
ymwneud a nhw yn y maniffesto hwn. Nid ydym wedi ceisio cymhwysio
safbwynt arbennig at wahanol rannau.o fywyd Cymru, ond crynhown yn
anochel yr un casgliadau wrth ymchwilio i bob maes. Nid yw'r casgliadau
hyn mor ffurfiol ag i ffurfio dogma, ond maent yn ddigon unigryw a
sylweddol ag i ffurfio athroniaeth wleidyddol tuag at Gymru a'i hiaith.
Gallwn grynhai prif elfennau'r athroniaeth a'r casgliadau fel hyn:-

a) Ni fydd byw yr iaith Gymraeg ar ewylllys da a statws symbolaidd
yn unig. Ni fydd hi'n byw onibai bad iddi swyddogaeth wrthrychol,
faterol. Y swyddogaeth honno yw bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n
drwyadl ac yn systematig ym mhob maes o fywyd Cymru, ac yn sylfaen
i fywyd cymunedol iach. Gallwn ddilyn y trywydd hwn trwy wahanol
rannau a'r maniffesto, e.e.

- i). ni wna'r tro fod awdurdodau lleol yn rhoi
statws cyhoeddus, allanol i'r Gymraeg yn unig -
rhaid i'r Gymraeg hefyd yn raddol ddod yn iaith
gweinyddiaeth fewnol yr
awdurdodau hyn fel eu bod yn dod yn sefydliadau
hanfodol Gymraeg a'r iaith yn
allweddol iddynt yn hytrach nac yn atodiad.
- ii). ni wna'r tro fod ymgais i ddysgu'r Gymraeg yn
effeithiol fel pwnc yn ysgolion Cymru -rhaid i'r
iaith hefyd fad yn gyfrwng addysg fel bod y plant yn
ei gweld yn gyfrwng i ddysgu am y byd.
- iii). ni fyddai'n ddigonol i ffigyrau Cyfrifiad yn
y dyfodol ddangos cynnydd yng nghyfanswm yr unigolion
sy'n meddu ar wybodaeth o'r iaith - rhaid eu bod yn
cyfrannu at fywyd cymdeithasol Cymraeg bywiog i hyn
fod yn ffrwythlon.

b) Ni fydd y Gymraeg yn ffynnu oni bo'n gyfrwng i
feddylfryd Cymreig arbennig a pherthnasol i'w phobl.
Gwelwn hyn eto ym maes addysg nid oes diben mewn addysg
ar gyfer gwasanaethu y drefn economaidd/wleidyddol
Brydeinig trwy gyfrwng y Gymraeg: rhaid hefyd i
sylfaen a chynnwys yr addysg a gynigiwn i blant Cymru
newid i ymwneud ag anghenion eu gwlad a'u cymdeithas eu
hunain. Yn yr un modd, nid ydym wedi gweld gwerth
mewn gwasanaeth teledu Cymraeg a fyddai'n adlewyrchiad
o'r drefn Eingl-Americanaidd. Byddai'n well gan bobl y
gwreiddiol. Yn yr enghreifftiau hyn oll, fe welwn
frwydr yr iaith yn ysgogiad i newidiadau sylfaenol yn
y frwydr am ryedid cenedlaethol. Dychwelwn at y pwynt
hwn yn nes ymlaen. Nid yw'n ddigon newid iaith na hyd
yn oed reolaeth ar yr adeiladweithiau yng Nghymru -
rhaid newid yr adeiladweithiau eu hunain gan nad ydynt
yn gwasanaethu anghenion Cymru'n ddiwylliannol nac yn
faterol.

c. Ni fydd y Gymraeg yn parhau - mewn unrhyw fodd ystyrllon - onlbai fod cymdeithasau Cymraeg o bobl yn parhau. Yr ydym yn gyson felly trwy'r maniffesto wedi rhoi sylw at gynnal sylfeini materol cymdeithasau lleol - a dylai hyn ddod yn brif nod polisiâu tai, cynllunio ac economaidd. Golygai hyn newid sylfaenol yn y drefn bresennol lle penderfynir y polisiâu hyn yn ôl grymoedd y farchnad yn unol a buddiannau'r dosbarth economaidd rheolus. (Ni ellir chwaith adfer y Gymraeg fel iaith naturiol fyw ond mewn cyd-destun cymdeithasol fel hyn; ac felly mae'r polisiâu hyn yr un mor berthnasol i ardaloedd llai Cymraeg ein gwlad, yn ogystal ac yn cyfoethogi bywyd cymdeithasol yn ehangach).

ch). Ni ellir sicrhau'r nod o barhad i gymdeithasau lleol onibai fod ganddynt reolaeth dros amodau eu tynged. Golyga hyn felly

- i). rheolaeth gymdeithasol, a
- ii). rheolaeth leol - yr hyn a alwn yn gymdeithasiaeth".

Daethom i'r casgliad fod angen cymdeithasoli ym mhob maes y buom yn ei astudio yn y maniffesto - y farchnad dai, cynllunio, twristiaeth, yr economi, addysg, etc. Daeth y patrwm gwleidyddol ar gyfer parhad yr iaith a chymdeithasau lleol yn amlwg. Sylweddolwyd nad oes modd i'r Gymraeg barhau oni sefydlir yng Nghymru drefn economaidd a gwleidyddol a weinyddir o'i bôn i'w brig yn ôl egwyddorion sosialaeth Gymreig.

- d). Gyda dyfodiad grym gwleidyddol ac economaidd, golygai hyn gyfrifoldeb newydd i gymdeithasau lleol Cymru ac i'w phobl. O'r oedran cynharaf trwy'r gyfundrefn addysg a thrwy'r cyfryngau torfol a chymunedol, rhaid i ni fagu cenedl o bobl gyda meddylfryd beirniadol a chyfrifol. Dim ond pobl effro fel hyn - yn gweithredu mewn trefn o ddemocratiaeth uniongyrchol a chyda grym real dros eu tynged yn eu dwylo a fydd yn alluog i amddiffyn eu cymdeithasau a'u gwareiddiad.

dd). Yn ôl ein hathroniaeth a'n rhaglen waith, byddai adferiad y Gymraeg felly yn rhan o adferiad cymdeithasol ehangach a fyddai'n cyfoethogi bywydau pawb yng Nghymru ac yn rhoi cyfrifoldeb newydd iddynt. Fel hyn, byddai swyddogaeth wrthrychol a phendant i'r iaith. Ar sail hyn hefyd, daliwn fod ein maniffesto'n berthnasol i bawb yng Nghymru, a galwn am gefnogaeth gan bob carfan flaengar.

- e). Fod undod hanfodol rhwng dulliau ac amcanion. Dylai'r dulliau o weithredu adlewyrchu cyfiawnder ein hamcanion.

Mae'r uchod yn rhoi ymdeimlad o gyfeiriad i ni ar gyfer y dyfodol. Daliwn fod Cymdeithas yr Iaith yn yr wythdegau wedi'i sefydlu fel mudiad gwleidyddol yn ystyr llawn y gair.

2. LLE CYMDEITHAS YR IAITH YN Y SBECTRWM GWLEIDYDDOL.

Bwriadwn dorri'n ffordd ein hunain tuag at ein nod. Ond gallwn yn awr wneud ymdrech i leoli Cymdeithas yr Iaith tu fewn i'r sbectrwm gwleidyddol trwy gyfeirio at ein cynghreiriaid naturiol:-

- a) Mae Cymdeithas yr Iaith yn ymrestru gyda'r rhai hynny sy'n brwydro i sicrhau rheolaeth gymdeithasol dros amodau materol bywyd er mwyn atal ecploetio gan ddsbarthiadau a grymoedd arbennig. Ni all y Gymraeg fyw dan unrhyw drefn arall. Gwelwyd droeon yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf fod yna wahanol agweddau ar yr un frwydr, e.e. pan safodd Cymdeithas yr Iaith gyda gweithwyr dur Shotton yn eu hymgyrch yn erbyn cau'r gwaith dur, fe welwyd hon hefyd yn frwydr amddiffyn y gymdeithas leol a'i chymeriad. Mae ymgyrch y Gymdeithas dros statws cynllunio i'r iaith hefyd yn gyfraniad pwysig i'r ymdrech i sicrhau rheolaeth gymdeithasol lwyrach dros bob datblygiad sy'n effeithio ar y gymdeithas leol. Fe ddilyn y dylai fod gan Gymdeithas yr Iaith gynghreiriaid naturiol ymhlith y dosbarthiadau hynny sy'n cael eu hamddifadu o le cyfrifol yn y drefn bresennol - e.e. y rhai heb gartref a'r rhai diwaith - ac hefyd ymhlith ein cydwladwyr sydd wedi'u hamddifadu o'u hetifeddiaeth Gymraeg.
- b). Yn sylfaenol, datganwn ein bod yn fudiad o genedlaetholwyr. Mae problemau'r iaith Gymraeg a'n pobl yn deillio o'r broblem genedlaethol. Mae imperialaeth wleidyddol, economaidd a diwylliannol wedi treiddio i bob rhan o fywyd Cymru ac i bob cymdeithas leol. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r frwydr dros yr iaith Gymraeg ar flaen y frwydr dros ryddid cenedlaethol. Tu fewn i faes eang y broblem genedlaethol, mae nifer o haenau eraill wedi'u cyd-wau:-

i). Dosbarth:

Mae tystiolaeth lu mewn llawer o wledydd i'r cysylltiad clasurol rhwng imperialaeth a chyfalafiaeth. Ein Than arbennig ni yn y frwydr i sicrhau fod y dosbarth gweithiol cyflogedig Cymreig yn ennill rheolaeth a chyfrifoldebau am fywyd ein cenedl yw i ddangos cyfanrwydd y frwydr ac i ddangos na allai sefydlu dosbarth breiniol Cymreig newydd warchod ein hetifeddiaeth a'n buddiannau cenedlaethol yn foddhaol. (Rhaid i ni ystyried sefydliadau fel S4C a Phrifysgol Cymru yn y cyswllt hwn). Ystyriwn wers o gyfandir arall. "Oni bydd manylu ar y cenedlaetholdeb, oni chaiff ei gyfoethogi a'i ddyfrhau gan drawsnewidiad cyflym iawn i ymwybyddiaeth o anghenion cymdeithasol a gwleidyddol fe arwain i gul-de-sac". (Frantz Fanon - Les Damnés de la Terre.)

ii) Dileu trais.

Bu Cymdeithas yr Iaith ymhlith sylfaenwyr C.N.D. Cymru. Mae trais yn sylfaenol yn y pen draw i'r drefn sy'n dinistrio

fframwaith cymdeithasol ac economaidd ein gwlad. Yr ydym wedi cydnabod o'r cychwyn mai rhan o'n gwaith ni yw cyfrannu at ryddhau'n cenedl o afiechyd trais corfforol a seicolegol (meddylfryd y taeg) a dibyniad ar sefydliadau milwrol. Mae hyn eto'n amod i barhad ein pobl.

c). Yn yr amser byr, ymrestra Cymdeithas yr Iaith ymhlith y rhengoedd sy'n brwydro yn erbyn tansellio hynny o ddemocratiaeth sydd yn y wladwriaeth yr ydym yn byw ynddi. Gwrthwynebwn y tueddion cynyddol tuag at dotalitariaeth ganolog

i) yr ymdrechion i danseilio llywodraeth leol - gan fod adeiladu cyrff democrataidd lleol nerthol newydd yn gwbl ganolog i bopeth yr ydym wedi'i argymhell yn y maniffesto

ii). yr ymdrechion cynyddol i ddefnyddio'r gyfraith yn ddigywilydd o agored amddiffyn y status quo. Ein cyfraniad ni yw i beidio a phlygu i ddefnydd felly o'r gyfraith ac felly ei ddirymu.

iii). yr ymdrechion i dynhau gafaél y Sefydliad ar y cyfryngau torfol - mae Cymdeithas yr Iaith wedi ymuno ag ymgyrch Rhyddid y Wasg. Mae gwasg agored yn hanfodol i'r gwaith o fagu cenedl gyfrifol a fydd yn warcheidwaid i'n gwareiddiad .

iv). ym maes addysg, ein bod yn bleidiol i'r safbwynt fod angen magu plant i feddwl drostynt eu hunain o'r oedran cynharaf.

v). gwelwn y perthnasedd i ni'n hunain yn ymdrechion y llywodraeth i atal trafodaeth ddemocrataidd trwy wneud cocynnau hitio parod o garfannau megis pobl lliw ac undebau llafur.

Datblygiad parhaus.

Mae'r maniffesto lawn yn adlewyrchiad o ddatblygiad Cymdeithas yr Iaith yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Arwydd yw'r maniffesto o pa mor bell y mae'r mudiad wedi'i gyrraedd yn ei ddealltwriaeth o broblemau Cymru a'i hiaith a'i allu i gynnig atebion a gweithredu arnynt.

Nid ydym am geisio honni fod yma ddatganiad terfynol ar y problemau hyn. Ffuria'r maniffesto yn hytrach sylfaen a fframwaith i'n gweithredu yn ystod y degawd nesaf. Ochr yn ochr a'r gweithredu hyn, ac yn deillio o brofiad y gweithredu, bydd angen trafodaeth barhaus am feysydd lle nad ydynt wedi cynnig unrhyw fath ar atebion cyflawn hyd yma.

Fel enghraifft o'r angen am drafodaeth barhaus, gallwn gyfeirio at bwnc dyfodol llywodraeth yng Nghymru. Os am wireddu'r polisiau a amlinellwyd gennym, bydd yn rhaid sicrhau bod mwy o rym gwleidyddol yn nwylo'n pobl a'u cymunedau lleol, a pheirianwaith llywodraethol a fydd yn galluogi democratiaeth uniongyrchol i weithio. Credwn fod y drafodaeth a fu yn y saithdegau ar ddyfodol llywodraeth yng Nghymru wedi bod braidd yn bragmataidd arwynebol

yn ymdrin ag un agwedd yn unig - sef cynulliad cenedlaethol i weithredu to fewn i'r drefn bresennol. Bwriada Cymdeithas yr Iaith hybu trafodaeth ddyfnach ar holl hanfod a swyddogaeth llywodraeth yng Nghymru.

Cychwynnwn o'r safbwynt fod y drefn bresennol o lywodraeth ganolog a lleol wedi methu'n llwyr ag amddiffyn a datblygu buddiannau pobl Cymru'n ddiwylliannol ac yn economaidd. Ar waethaf ymdrechion nifer o unigolion o ewyllys da (e.e. yn awdurdodau lleol Cymreiciaf ein gwlad) y mae'r methiant wedi parhau a chasglwn felly mai'r drefn ei hun sy'n methu. Nid ein bwriad yn y fan hon yw gosod allan unrhyw fath o gynllun ar gyfer y dyfodol yng Nghymru. Amlinellwn yn unig rai elfennau angenrheidiol mewn unrhyw drefn newydd, sy'n dilyn yn rhesymol o'n hargymhellion yn y maniffesto hwn.

Y brif egwyddor i'w chorffori mewn trefn newydd o lywodraeth yw fad y prif rym yn y gymdeithas leol. Byddai angen awdurdodau cymunedol newydd i ymgymryd a'r materion a godwyd gennym yn y maniffesto. Dylai awdurdodau newydd gynnwys elfen helaethach o ddemocratiaeth uniongyrchol, e.e. ar bwyllgor economaidd, dylai fod cynrychiolwyr o weithdai lleol; ar bwyllgor tai fe ddylai fad cynrychiolwyr o denantiaid; ar bwyllgor diwylliant fe ddylai fod cynrychiolwyr o fudiadau lleol yn ogystal chynghorwyr. Fe ddilyn yn naturiol o'r egwyddor hon y byddai cynulliad cenedlaethol yn atebol i'r awdurdodau cymunedol hyn yn hytrach na bod yn feistr arnynt.

Yn ôl ein hargymhellion, byddai ein pobl yn cael eu paratoi ar gyfer cymryd rhan mewn democratiaeth fwy uniongyrchol trwy'r broses a addysg a thrwy ymdraffod brwd yn y cyfryngau torfol.

Gobeithiwn weld trafodaeth fwy ffrwythlon ar y pwnc hwn yn yr wythdegau nag a fu yn y saithdegau.

TROI'R MANIFFESTO YN REALITI YNG NGHYMRU.

Fel y dywedwyd yn y rhagymadrodd, cymdeithas weithredol yw Cymdeithas yr Iaith, a'n bwriad yw i droi'r polisi'n realiti. Cyhoeddwn raglen waith ar sut i wneud hyn. Ond, yn yr adran olaf hon, ystyriwn addasrwydd ein mudiad fel cyfrwng i hybu'r newidiadau sylfaenol a amlinellwyd gennym.

Er mwyn dwyn y newidiadau i fod, mae angen yng Nghymru gyfuniad o ddwy elfen ymddangosiadol baradocsiaidd

- (a) mudiad iaith arbennig, a
 - (b) clymblaid o fudiadau i bwysu am y newidiadau ar ffrynt eang.
- a). Yr angen am fudiad iaith.

Mae nifer o fudiadau'n pwysu am newidiadau sylfaenol yn y drefn economaidd a gwleidyddol yng Nghymru.

Mae nifer ohonynt yn-cydnabod, wrth fynd heibio fel petae, swyddogaeth bwysig i'r iaith Gymraeg. Ond os yw'r Gymraeg i barhau ac i fod yn ganolog i'r drefn newydd, y mae'n rhaid wrth fudiad y mae buddiannau'r Gymraeg yn hollol ganolog i'w hall weithgarwch. Fel arall, y mae perygl "chwyldroadwyr" yn eu hagwedd at y Gymraeg fod yn ddrych o agwedd y Sefydliad talu gwrogaeth iddi, ond sylfaenu'u gweithgarwch ar y Saesneg er hwylustod, fel y gwnaeth cenedlaetholwyr yn Iwerddon. Mae'n rhaid hefyd wrth fudiad iaith i dynnu sylw'n gyson at effaith pob polisi ac argymhelliad ar yr iaith Gymraeg, e.e. wrth ddatblygu'r economi mewn modd difeddwl, gellid yn anfriadol niweidio'r iaith mewn Thai sefyllfaoedd.

- b) Yr angen am ffrynt eang.

Mae'r newidiadau angenrheidiol a amlinellwyd gennym mar sylfaenol, a'r potensial am gynghreiriaid gwleidyddol mar amlwg, fel mai synnwyr cyffredin yw i ni feithrin cysylltiadau gyda'r elfennau eraill hyn a cheisio cyd-drefnu pwysau i newid natur yr economi, y farchnad dai, y broses gynllunio, y gyfundrefn addysg, etc. Tu fewn i'r ffrynt eang, byddai Cymdeithas yr Iaith yn hoelio'r sylw yn gyson ar fuddiannau'r Gymraeg.

Gwrthodwn felly y ddau ddewis syml o ymgyfyngu'r iaith ar y naill law i ymdrin â materion "iaith" mewn gwagle, ar wahân i'r cyd-destun cymdeithasol-economaiddi ac ar y llaw arall y demtasiwn i ymdroi'n fudiad "gwleidyddol" confensiynol gan wthio'r iaith i'r cefndir. Dilynw'n yn hytrach y strategaeth ddeuol o gadw'n hunaniaeth fel mudiad iaith ymosodol, yn gweithredu to fewn i gyd-destun gwleidyddol ehangach.

Ond nid yw creu strategaeth i fudiad chwaith ynddo'n hun yn sicrhau troi'r maniffesto'n realiti. Yn y man olaf, dibynna hyn ar ymlyniad aelodau a chefnogwyr wrth y mudiad a'r achos. Dibynna'n llwyddiant ar ein gallu i ganfod ffyrdd a ddwyn y llu o garedigion yr iaith i mewn i'r gwaith - ffyrdd iddyn nhw weithredu ac ychwanegu'u pwysau

at yr ymgyrchu. Os gallwn sianelu'r holl bwysau hyn yn ein hymgyrchoedd, bydd grym enfawr gyda ni. Nid oes unrhyw fformiwla gosod, syml i wneud hyn. Golygir ym mhob ymgyrch, ym mhob sefyllfa, ac ym mhob ardal fod

- (i) trefnwyr y Gymdeithas yn llunio ymgyrchoedd yn y fath fodd ag i roi cyfle i'r nifer mwyaf posibl gymryd rhan, a
- (ii) fod aelodau a chefnogwyr yn holi ac yn ymholi'n gyson sut y gallant gyfrannu at y gwaith.

Mae gweithredu'r maniffesto yn her i bob un ohonom - ac yn her i ni wynebu'n syth. Fel y dywedodd cadeirydd ein mudiad

(Meri Huws - 1982) "sôn yr ydym am Gymru'r yfory - ond os na weithredwn heddiw, ni bydd yna yfory."